



**Ministry of  
JUSTICE**

National Offender  
Management Service



**Gweinyddiaeth  
CYFIAWNDER**

Gwasanaeth Cenedlaethol  
Rheoli Troseddwy


# **Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy**

## **Cynllun Iaith Gymraeg**

**Papur Ymgynghori**

**Mae'r ymgynghoriad hwn yn cychwyn ar 4 Medi 2012**

**Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 4 Rhagfyr 2012**



CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

# **Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr**

## **Cynllun Iaith Gymraeg**

**Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn [www.justice.gov.uk](http://www.justice.gov.uk)**

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASiantaeth NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

**About this consultation**

**At:** Rhanddeiliaid NOMS a'r cyhoedd yn gyffredinol  
**Hyd:** O 04/09/12 tan 04/12/12  
**Ymholiadau (gan Suzanne Dean**  
**gynnwys ceisiadau am Women & Equalities Group, NOMS**  
**y papur mewn fformat Ministry of Justice**  
**arall) at:** 3.16 Clive House, 70 Petty France  
Llundain SW1H 9EX  
Ffôn: 0300 047 6588

E-bost: [welshlanguage@noms.gsi.gov.uk](mailto:welshlanguage@noms.gsi.gov.uk)

**Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 04/12/12 at:  
Suzanne Dean  
Ministry of Justice  
3.16 Clive House, 70 Petty France  
Llundain SW1H 9EX  
Ffôn: 0300 047 6588

E-bost: [welshlanguage@noms.gsi.gov.uk](mailto:welshlanguage@noms.gsi.gov.uk)

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

**Cynnwys**

		<b>Rhif tudalen</b>
1.	Cyflwyniad	<b>6</b>
2.	Y Cynigion - Cefndir a Diffiniadau	<b>7</b>
3.	Egwyddorion Cyffredinol	<b>9</b>
4.	Gwasanaeth Cymraeg Asiantaeth NOMS	<b>10</b>
5.	Staff	<b>19</b>
6.	Sut fydd y Cynllun yn berthnasol i Garchardai	<b>21</b>
7.	Y Gwasanaeth Cymraeg mewn Carchardai	<b>22</b>
8.	Gweithredu'r Cynllun	<b>26</b>
9.	Monitro'r Cynllun a Chyhoeddi Gwybodaeth	<b>30</b>
10.	Rhoi Cyhoedduswydd i'r Cynllun	<b>32</b>
11.	Gwybodaeth Bellach ac Adborth	<b>32</b>
12.	Ymholiadau a Chwynion	<b>33</b>
13.	Cyfrifoldeb am y Cynllun	<b>34</b>
<b>Atodiad A</b>	Cynllun Gweithredu ar gyfer rhoi Cynllun Iaith Gymraeg Asiantaeth NOMS ar waith	<b>35</b>
<b>Atodiad B</b>	Dogfennau Polisi Perthnasol	<b>42</b>
<b>Atodiad C</b>	Y Boblogaeth sy'n dod o Gymru yn y Carchardai	<b>45</b>
<b>Atodiad D</b>	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	<b>49</b>
<b>Atodiad E</b>	Holiadur	<b>53</b>
<b>Atodiad F</b>	Amdanoch chi	<b>60</b>
<b>Atodiad G</b>	Manylion Cyswllt / Sut i ymateb	<b>61</b>
<b>Atodiad H</b>	Y Meini Prawf Ymgynghori	<b>62</b>
<b>Atodiad I</b>	Manylion Cydlynnydd yr Ymgynghoriad	<b>63</b>

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r cynigion ar gyfer ymgynghoriad ar Gynllun Iaith Gymraeg Asiantaeth y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r (Asiantaeth NOMS). Anelir yr ymgynghoriad at y cyhoedd yng Nghymru a Lloegr a rhanddeiliaid Asiantaeth NOMS.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â Chod Ymarfer y llywodraeth mewn perthynas ag Ymgynghori ac mae'n dod o fewn cwmpas y Cod. Dilynwyd y meini prawf ymgynghori, a restrir ar dudalen 60.

Nid yw'r papur hwn yn cynnwys Asesiad o'r Effaith oherwydd bod y cynigion yn y papur yn rhai mewnlol ac nid ydynt yn debygol o arwain at gostau ychwanegol nac arbedion ar gyfer busnesau, cymdeithas sifil na'r sector cyhoeddus. Os ydych yn anghytuno â'r casgliad hwn ynghylch effaith debygol y Cynllun o ran rheoleiddio a ddisgrifir yn y papur hwn, fe'ch gwahoddir i anfon eich rhesymau fel rhan o'ch ymateb cyffredinol i'r papur hwn. Croesawir sylwadau ar sgrinio cychwynol yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a geir yn Atodiad D.

---

Mae Asiantaeth Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r (Asiantaeth NOMS) yn gyfrifol am reoli troseddwy'r sy'n oedolion yng Nghymru a Lloegr ac mae'n rhan o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn ystyried cynllun trosfwaol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac yn ceisio rheoli gofynion defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg, sydd yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr ac sydd ar orchmynion cymunedol a thrwyddedau yng Nghymru, ar sail yr egwyddor bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae hyn yn berthnasol i'r gwasanaethau a ddarparwn ein hunain, fel Asiantaeth NOMS, a'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu darparu gan eraill ar ein rhan.

Er mwyn sicrhau ein bod yn dal i fodloni'r gofynion angenrheidiol, rydym wedi llunio cynllun sy'n gosod cyfrifoldebau o fewn strwythurau lleol sydd eisoes yn bodoli ac sy'n ystyried newidiadau yn y polisi presennol. Dyma'r nod yn y pen draw gyda phob gwaith sy'n ymwneud â Chydraddoldebau – annog, cefnogi a monitro perfformiad lleol yn erbyn y safonau sy'n ofynnol er mwyn gwneud newidiadau parhaol i'r diwylliannau carchar a phrawf.

Mae'r sefydliad yn dal i fynd drwy broses ailstrwythuro, sydd wedi arwain at amryw newidiadau strwythurol a bydd mwy i ddod. Mae'r fersiwn hwn o'r cynllun yn seiliedig ar ein strwythur presennol ond mae'n bosib y gwneir newidiadau iddo ar ôl cwblhau'r ailstrwythuro. Os na fydd yr wybodaeth hon ar gael ar adeg cyhoeddi'r cynllun, byddwn yn cyhoeddi newidiadau i'r cynllun maes o law

Cyhoeddwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder ym mis Mawrth 2010. Y cynllun hwnnw a ddefnyddiwyd fel fframwaith trosfwaol wrth baratoi'r Cynllun hwn a cheir cyfeiriadau ato yn y Cynllun hwn. Er ei fod yn nodi

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

egwyddorion cyffredinol gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg, nid yw'n manylu. Mesur y Gymraeg yw'r grym mwyaf sy'n gyrru Cynllun newydd NOMS yn ei flaen.

Mae NOMS wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd NOMS yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Paratowyd y Cynllun hwn yn unol ag Adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac yn unol â hynny bydd Asiantaeth y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r (Asiantaeth NOMS) yn:

- rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg (y ceir manylion amdanynt ar y wefan: [www.comisiynyddygyymraeg.org](http://www.comisiynyddygyymraeg.org))
- anfon y Cynllun arfaethedig at Gomisiynydd y Gymraeg cyn ei fabwysiadu;
- anfon datganiad ysgrifenedig at Gomisiynydd y Gymraeg, os nad ydym yn gweithredu'r newidiadau a awgrymir gan y Comisiynydd, yn nodi'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny.

Mae Asiantaeth NOMS wedi cydnabod Mesur y Gymraeg wrth greu'r cynllun hwn. I'r perwyl hwn, bydd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn sicrhau bod Asiantaeth NOMS yn barod ar gyfer Mesur y Gymraeg a'r hyn a ddisgwylir gan yr asiantaeth. Yn ychwanegol at hyn, bwriedir i'r Cynllun fod yn sail i Gynlluniau Iaith Gymraeg Ymddiriedolaeth Prawf Cymru a darparwyr perthnasol eraill Asiantaeth NOMS.

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg wedi cael ei fabwysiadu gan Asiantaeth NOMS a'r cyrff sy'n gweithredu o fewn Asiantaeth NOMS a chafodd ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg ar [x x 2012].

## **2. Y Cynigion - Cefndir a Diffiniadau**

### **2.1 Asiantaeth NOMS**

Sefydlwyd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r (NOMS) ym mis Ebrill 2004. Ar 1 Ebrill 2008 ffurfiwyd Asiantaeth NOMS, a daeth Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMPS) yn rhan o'r Asiantaeth newydd. Pwrpas yr asiantaeth yw dod â'r Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf at ei gilydd dan un corff corfforaethol, i sefydlu system rheoli troseddwy'r unedig ar gyfer Cymru a Lloegr ac atebolrwydd clir am ostwng aildroseddu.

Mae pob cyfeiriad at bobl yng Nghymru'n cynnwys y cyhoedd a'r staff sy'n defnyddio gwasanaethau Asiantaeth NOMS sy'n cael eu darparu yng Nghymru a Lloegr.

## 2.2 Troseddwyr yng Nghymru

Bwriad yr adran isod yw rhoi rhyw syniad faint o droseddwyr yng Nghymru y bydd y Cynllun yn effeithio arnynt.

Yn ystod 2009 ymdriniodd Llysoedd yng Nghymru â thua 83,000 o achosion. Roedd dros 38,500 o'r rhain yn droseddau gan oedolion. Ar gyfartaledd, byddai hyn yn arwain at gyfanswm blynyddol o tua 7,000 o droseddwyr yn cael dedfryd o garchar a hyd at 10,000 yn cael dedfryd gymunedol dan oruchwyliaeth swyddogion prawf. Ar adeg benodol, gallai Ymddiriedolaeth Prawf Cymru fod â hyd at 16,000 o droseddwyr i'w goruchwyllo. Ym mis Tachwedd 2011, roedd lle i tua 3,100 o garcharorion yng ngharchardai Cymru, ac nid oes carchar merched yng Nghymru. Ar adeg benodol, mae tua 40% o'r carcharorion gwrywaidd sy'n cael eu dedfrydu mewn llysoedd yng Nghymru'n cael eu cadw mewn carchar yn Lloegr

Ar hyn o bryd, mae'r Gyfarwyddiaeth Comisiynu a Gwasanaethau Masnachol yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau i droseddwyr mewn carchardai ac yn y gymuned yng Nghymru. Mae hyn yn golygu ei bod yn gweithio mewn cysylltiad agos â Llywodraeth Cymru wrth gyflawni ei chyfrifoldebau dirprwyedig sy'n effeithio ar ymddygiad troseddol.

## 2.3 Carcharorion sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru a Lloegr

Mae pedwar carchar yng Nghymru - Carchar Caerdydd, Carchar Abertawe, Carchar Brynbuga/Prescoed a Charchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc. Er nad oes digon o le yng ngharchardai Cymru ar gyfer yr holl droseddwyr sy'n cael eu dedfrydu i garchar gan lys yng Nghymru, byddwn yn ceisio cael lle i garcharorion o Gymru yng Nghymru os yw hynny'n ymarferol.

Bydd gwasanaeth sylfaenol yn y Gymraeg yn ofynnol ym mhob carchar yng Nghymru a Lloegr. Ceir manylion am yr hyn a ddisgwylir gan Lywodraethwyr carchardai, a Chyfarwyddwyr carchardai sy'n cael eu rhedeg ar gontract, wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn yn [Adran 7](#) y Cynllun.

Rydym yn ystyried yn ystod y cyfnod ymgynghori a fyddai'n synhwyrol cael system haenau, lle mae disgwyl i garchardai yn Lloegr sy'n debygol o dderbyn nifer fawr o siaradwyr Cymraeg gynnig amrediad ehangach o wasanaethau.

## 2.4 Prawf yn Lloegr

Ar sail gwybodaeth flaenorol, disgwylir mai ychydig iawn o droseddwyr o Gymru ar orchmynion cymunedol yn Lloegr fydd yn dymuno cael gwasanaethau wedi'u darparu yn Gymraeg. Fodd bynnag, os yw troseddwr sydd wedi nodi mai Cymraeg yw ei ddewis iaith yn cael ei leoli yn Lloegr, gall yr Ymddiriedolaeth Prawf berthnasol gysylltu ag Ymddiriedolaeth Prawf Cymru i edrych ar y



## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

dewisiadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau perthnasol i'r graddau y mae hynny'n ymarferol.

### **2.5 Prawf yng Nghymru**

Bydd Ymddiriedolaeth Prawf Cymru yn gyfrifol am weithredu ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun ar gyfer gwasanaethau Prawf yng Nghymru. Dylai Cynllun Asiantaeth NOMS helpu i ddarparu gwybodaeth i gynllun Ymddiriedolaeth Prawf Cymru a sicrhau cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau.

### **2.6 Y Ganolfan Cydwasanaethau**

Mae'r Ganolfan Cydwasanaethau wedi'i lleoli ger Casnewydd ac mae'n darparu gwasanaethau corfforaethol i wasanaethau carchardai yng Nghymru a Lloegr, ac i Asiantaeth NOMS, e.e. Adnoddau Dynol, Cyllid ac ati. O ganlyniad, bydd yn ofynnol i'r Ganolfan Cydwasanaethau weithredu Cynllun Iaith Gymraeg Asiantaeth NOMS. Fodd bynnag, gan fod y Ganolfan Cydwasanaethau wedi'i lleoli yng Nghymru, mae rhai o'r gofynion ar gyfer y gwasanaeth hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn yr adrannau ar swyddfeydd NOMS wedi'u lleoli yng Nghymru h.y. Cyflenwi Busnes. Tynnir sylw at y rhain yn y Cynllun.

## **3. Egwyddorion Cyffredinol**

### **3.1 Y Gwasanaeth Cymraeg a ddarperir gan Asiantaeth NOMS a'i safon**

Mae pob un o bolisiâu presennol NOMS sy'n berthnasol i'r Cynllun naill ai'n cael ei weithredu eisoes neu'n cael ei enwi yn y cynllun gweithredu yn Atodiad A fel polisi sydd i'w roi ar waith.

Mae Asiantaeth NOMS wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cyson ei safon, boed y gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddarparu yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Byddwn yn monitro'r gwasanaeth a ddarperir gennym a'i safon drwy ein trefniadau comisiynu a pherfformiad gyda darparwyr mewnol ac allanol.

### **3.2 Cynllunio gwasanaethau**

Wrth gynllunio'n gwasanaethau, rydym wedi ymrwymo i ystyried yr angen i gynig darpariaeth gyfartal i siaradwyr Cymraeg a Saesneg fel yr amlinellir yn y Cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys sut y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu i garcharorion o Gymru sy'n cael eu cadw mewn carchardai yn Lloegr ac sy'n nodi mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith.

### **3.3 Polisiâu a gweithdrefnau newydd**

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

Bydd pob polisi a menter newydd gan Asiantaeth NOMS a fydd yn effeithio ar bobl yng Nghymru a charcharorion sy'n siarad Cymraeg yn Lloegr yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'n rhestr wirio ar gyfer prosiectau Cymraeg (bydd copi ar gael i'r staff) er mwyn sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael i siaradwyr Cymraeg. Bydd angen i bawb sy'n ymwneud â datblygu polisi, a'i weithredu yn Asiantaeth NOMS, ynghyd â'r sefydliadau sy'n gweithio dan contract iddi, ystyried y Cynllun Iaith Gymraeg a'n cyfrifoldebau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Byddwn yn ceisio hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Nghymru drwy bolisiau a gweithdrefnau newydd lle bynnag y bo modd.

Bydd Asiantaeth NOMS yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag unrhyw gynigion sy'n effeithio ar y Cynllun hwn, neu a fydd yn effeithio ar Gynlluniau Iaith Gymraeg sefydliadau cyhoeddus eraill. Yn unol â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg, ni fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r Cynllun hwn onid yw'r Comisiynydd yn cytuno.

### **3.4 Gweithredu**

Bydd Asiantaeth NOMS yn sicrhau bod ei gwasanaethau yng Nghymru ac yn y carchardai a nodwyd yn Lloegr yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, er enghraifft, bydd yn sicrhau nad oes unrhyw rwystrau, e.e. ffurflenni, rheoliadau, rheolau neu weithdrefnau rhagnodedig, sy'n atal pobl rhag defnyddio'r Gymraeg lle mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu i bobl yng Nghymru. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod Aseidiadau lleol o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystyried yr iaith Gymraeg.

### **3.5 Ystyriaethau yn ymwneud â Chytundebau Lefel Gwasanaeth a Chontractau**

Wrth ystyried Cytundebau Lefel Gwasanaeth a chontractau darparwyr bydd Asiantaeth NOMS yn cynnwys mesurau er mwyn i sefydliadau allu cymhwyso'r egwyddor o gydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau. Bydd hefyd yn monitro er mwyn sicrhau bod safon y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg a'r Saesneg yr un mor uchel.

Byddwn yn cynnwys mesurau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg mewn canllawiau ar gyfer sefydlu contractau darparwyr er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hymgorffori yn y contractau angenrheidiol a bod y disgwyliadau'n hawdd i'w deall.

Bydd y Cynllun yr un mor berthnasol i garchardai dan contract a charchardai'r sector cyhoeddus.

## **4. Gwasanaeth Cymraeg Asiantaeth NOMS**

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

- 4.1** Ein nod yw darparu gwasanaeth Cymraeg o safon uchel ac, yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mabwysiadu'r arferion gorau posibl wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal yng Nghymru, ac ar gyfer carcharorion Cymraeg eu hiaith sy'n cael eu lleoli yn Lloegr;
- cyhoeddi'n Cynllun Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac agwedd agored;
- gosod canllawiau clir ar gyfer ymdrin â siaradwyr Cymraeg;
- nodi pwyntiau cyswllt y gall y cyhoedd eu defnyddio yn Asiantaeth NOMS er mwyn sicrhau rhagor o ddealltwriaeth, hybu gwelliannau a thynnu sylw at ddiffygion wrth weithredu'r polisi;
- sicrhau bod cyfran y staff sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru yn gymesur â nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned y maent yn darparu gwasanaethau iddi.
- monitro ein perfformiad wrth ddarparu gwasanaethau o safon uchel yn y Gymraeg drwy adolygu effeithiolrwydd y gwasanaeth Cymraeg yn rheolaidd a gosod targedau ar gyfer gwelliannau.

- 4.2** Wrth gymhwyso'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal i waith Asiantaeth NOMS byddwn yn:

- cynnig darpariaeth a gwasanaethau dwyieithog pa bryd bynnag y mae eu hangen i bobl yng Nghymru ac i garcharorion Cymraeg eu hiaith sy'n cael eu lleoli yn Lloegr cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn bosib;
- rhoi sylw manwl i agweddau ieithyddol a diwylliannol wrth ddatblygu a gweithredu'n holl waith yng Nghymru ac ar gyfer carcharorion Cymraeg eu hiaith sy'n cael eu lleoli yn Lloegr;
- sicrhau bod cyhoeddiadau sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg, oni bai eu bod yn disgyn i un o'r categorïau nad ydynt yn rhan o gylch gwaith y Cynllun hwn, sy'n cael eu nodi yn 4.9;
- ymgynghori â'r sefydliadau rydym yn gweithio â nhw, a nodi'r iaith a ddefnyddir yn eu cyswllt cyntaf;
- lle nodwyd y byddai'n fwy dymunol cynnal unrhyw ymgymeriad yn Gymraeg, sicrhau bod y cyfryw adnoddau ac arbenigedd yn cael eu sefydlu er mwyn cyflawni hyn;
- sicrhau bod unrhyw waith a gweithgareddau sy'n deillio o ofynion a chynlluniau Llywodraeth Cymru, yn cael eu cyflawni'n ddwyieithog yn ôl y galw;

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

- hybu cynlluniau er mwyn codi safonau a chynyddu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth Gymraeg yng Nghymru ac i garcharorion Cymraeg eu hiaith sy'n cael eu lleoli yn Lloegr;
- sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu am y modd y mae pob darpar ddarparwr yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn eu contractau i ddarparu gwasanaethau yng Nghymru neu i garcharorion Cymraeg eu hiaith sy'n cael eu lleoli yn Lloegr;
- monitro gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl yng Nghymru ac i garcharorion Cymraeg eu hiaith yn Lloegr drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth a/neu gontractau, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg;
- archwilio Cytundebau Lefel Gwasanaeth a/neu ganlyniadau monitro contractau ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darparu i Gymru neu i garcharorion Cymraeg eu hiaith sy'n cael eu lleoli yn Lloegr; a
- chynnal deialog rheolaidd gyda Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â'n gwaith ac ymgynghori â'i gynrychiolwyr ynglŷn â materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

### **4.3 Gohebu â'r cyhoedd**

Mae Asiantaeth NOMS yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd yn ymateb yn yr iaith y derbynnir yr ohebiaeth. Bydd yr amseroedd ymateb yr un fath pa un a yw'r ohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau i staff Asiantaeth NOMS ynglŷn â defnyddio gwasanaethau cyfieithu cyn i'r Cynllun hwn ddod i rym.

Bydd gohebiaeth y byddwn ni'n ei chychwyn am faterion sy'n gyffredinol berthnasol yng Nghymru mewn ffurf ddwyieithog. Bydd pob gohebiaeth bersonol yn cael ei hysgrifennu yn newis iaith (Cymraeg neu Saesneg) y sawl sy'n derbyn y llythyr, os yw hynny'n hysbys. Lle na wyddys pa un yw'r ddewis iaith, bydd y llythyr cychwynnol a anfonir at aelod o'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

### **4.4 Cyfathrebu â'r cyhoedd dros y ffôn ac wyneb yn wyneb**

Ychydig iawn o gysylltiad y mae staff Asiantaeth NOMS y tu allan i Gymru'n ei gael â'r cyhoedd yng Nghymru. O ganlyniad, nid yw'n ymarferol i ni gynnig gwasanaeth ffôn Cymraeg. Pan fydd galwyr yn datgan eu bod yn dymuno siarad Cymraeg byddwn yn cynnig y dewisiadau a ganlyn iddynt - ysgrifennu atom yn Gymraeg neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg. Neu, gellir eu cyfeirio at swyddfeydd NOMS wedi'u lleoli yng Nghymru.

Mae croeso i unrhyw un sy'n cysylltu dros y ffôn ag un o'n lleoliadau yng Nghymru (gan gynnwys carcharorion wedi'u lleoli yng Nghymru) wneud hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd pawb yn cael ei gyfarch yn ddwyieithog. Os yw'r sawl sy'n ateb yn methu â siarad Cymraeg bydd y galwr yn cael ei drosglwyddo,

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

os yw'n dymuno, at aelod o'r saff sy'n gallu sgwrsio ag ef neu hi yn Gymraeg. Bydd ymwelwyr yn cael gwasanaeth tebyg.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- sicrhau bod y staff i gyd yn gallu rhoi cyfarchiad dwyieithog;
- sicrhau, os nad oes staff Cymraeg yn bresennol, ein bod yn cynnig trefnu bod rhywun sy'n siarad Cymraeg yn dychwelyd yr alwad cyn gynted ag y bo modd. Neu, cynigir y dewis i'r galwr naill ai barhau â'r alwad yn Saesneg neu ysgrifennu atom yn Gymraeg; a
- croesawu ymwelwyr sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad yw'n bosibl dod o hyd i rywun sy'n siarad Cymraeg ar y pryd i ymdrin ag ymwelydd sy'n dymuno siarad yn Gymraeg, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i ddod o hyd i un. Bydd staff sy'n gweithio mewn derbynfydd yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r angen i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg yn ôl y galw a byddant yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwnnw.

### **4.5 Gwasanaethau cyfieithu**

Byddwn yn sicrhau gwasanaethau cyfieithu effeithiol o safon uchel sy'n ein galluogi i fodloni gofynion y Cynllun.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- monitro i ba raddau y mae targedau amser cytunedig yn cael eu cyrraedd;
- arfarnu ansawdd y cyfieithiadau a gynhyrchir a darparu adborth i'r gwasanaeth cyfieithu;
- sicrhau bod unrhyw gyfieithwyr sy'n cael eu comisiynu i wneud gwaith cyfieithu ar ran Asiantaeth NOMS yn gyfieithwyr sydd wedi cael eu cymeradwyo, er enghraifft yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu'n meddu ar Dystysgrif Prifysgol Cymru mewn Cyfieithu;
- ceisio defnyddio cyfieithwyr sydd â phrofiad o gyfieithu i'r System Cyfiawnder Troseddol.

Bydd gwasanaethau cyfieithu'n cael eu contractio gan Asiantaeth NOMS yn ganolog gan sicrhau bod y gwasanaeth cyfieithu'n bodloni'r gofynion a nodwyd uchod. Bydd hyn yn sicrhau bod pob sefydliad/adran sy'n cael gwasanaethau cyfieithu gan ddefnyddio'r gwasanaeth dan gontract yn bodloni'r gofynion hefyd. Bydd gan Ymddiriedolaethau Prawf eu trefniadau lleol eu hunain ar gyfer gwasanaethau cyfieithu.

### **4.6 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

Mae Asiantaeth NOMS yn annog ac yn croesawu defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg mewn cyfathrebu electronig gan bobl yng Nghymru a charcharorion sy'n siarad Cymraeg yn Lloegr.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn:

- yn sicrhau bod unrhyw wefan newydd gan Asiantaeth NOMS sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog;
- wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu gwefannau sy'n bodoli eisoes, yn ystyried [Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog](#) Comisiynydd y Gymraeg ac unrhyw ganllawiau eraill a gyhoeddir gan y Comisiynydd sy'n ymwneud â datblygu gwefannau.

Pa bryd bynnag y byddwn yn rhoi cyhoeddiadau ar ein gwefannau sydd i fod ar gael yn Gymraeg fel y nodir yn y cynllun hwn (adran 4.9), bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu rhoi ar y we yr un pryd.

Pan fydd NOMS yn darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru drwy wefannau allanol, byddwn yn darparu'r wybodaeth honno yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog ar y gwefannau hynny.

Wrth ddatblygu a darparu systemau a chynnyrch TG neu wrth ddiweddarau'r hen rai, bydd Asiantaeth NOMS:

- cyn cychwyn, yn asesu'r gofynion ieithyddol er mwyn darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru ac i garcharorion sy'n siarad Cymraeg yn Lloegr;
- yn sicrhau bod unrhyw feddalwedd newydd yn gydnaws â'r Cynllun a'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Lle bo Asiantaeth NOMS yn ymwneud â chomisiynu neu brynu meddalwedd TG newydd byddwn yn sicrhau bod gofynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu nodi lle bo angen, a bod y rhain yn cael eu cyflawni lle bo modd; ac
- yn hybu a hwyluso mynediad at systemau a chynnyrch TG Cymraeg yng Nghymru fel y mae'n rhesymol ymarferol.

### **4.7 System Asesu Troseddwr (OASys)**

Mae'r system OASys yn caniatáu i ni edrych ar asesiadau OASys yn y gwasanaeth carchardai a phrawf er mwyn cefnogi'r broses o reoli troseddwr. Mae'n ofynnol i'r staff gwblhau'r asesiad yn Saesneg. Mae hyn er mwyn sicrhau lle bo angen edrych ar Asesiad Risg OASys troseddwr yn gyflym, er enghraifft pan fo troseddwr yn cael ei drosglwyddo o un sefydliad i un arall neu'n cael ei ryddhau i'r gymuned, bod gwybodaeth am y risg y mae'r troseddwr yn ei achosi ar gael er mwyn diogelu carcharorion eraill, y staff a'r cyhoedd.

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

Ffurflen bapur sy'n cael ei chwblhau gan y troseddwr neu'r carcharor ac yn cael ei rhoi ar y rhaglen OASys yn dilyn hynny yw Holiadur Hunanasesu OASys; mae'r holiadur ar gael yn Gymraeg ar gyfer troseddwr sy'n siarad Cymraeg. Lle bo Adroddiadau Llys neu Gynlluniau Dedfrydu'n cael eu cynhyrchu ar gyfer troseddwr sy'n siarad Cymraeg, mae'r Ardal Prawf neu'r Carchar yn gyfrifol am drefnu bod cyfieithiad yn cael ei baratoli. Mae'r broses hon yn gweithio er mwyn sicrhau bod gan droseddwr sy'n siarad Cymraeg yr un wybodaeth amdanynt ag sydd gan droseddwr sy'n siarad Saesneg, a hefyd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ar gael am y risg o niwed difrifol sy'n cael ei achosi gan y troseddwr i'r holl staff a allai fod angen mynediad at yr wybodaeth ar fyr rybudd. Cynhyrchir copi caled o'r llawlyfr OASys yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod troseddwr sy'n siarad Cymraeg yn cael cymaint o wybodaeth a mynediad at y system gyfiawnder â throseddwr sy'n siarad Saesneg. Ond mae angen i ni sicrhau hefyd fod pob darparwr NOMS sydd angen mynediad at wybodaeth am droseddwr yn gallu gweld a/neu gyfrannu at yr Aseiad OASys, yr Adroddiad Llys neu'r Cynllun Dedfrydu perthnasol.

### **4.8 Cyfarfodydd cyhoeddus a chynadleddau**

Wrth drefnu cyfarfodydd yng Nghymru y bydd y cyhoedd yn cymryd rhan ynddynt byddwn yn dilyn canllawiau [Cyfarfodydd Dwyieithog](#) Comisiynydd y Gymraeg er mwyn ystyried y trefniadau ymarferol sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu siarad a deall yn ei ddewis iaith.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- sicrhau, er mwyn nodi'r angen am gyfarfod cyhoeddus dwyieithog, bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i broffil ieithyddol yr ardal lle mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal. Mewn ardaloedd lle mae crynodiad isel o siaradwyr Cymraeg, bydd unrhyw ddeunyddiau a ddefnyddir i hysbysu ynglŷn â chyfarfod yn gwahodd siaradwyr Cymraeg i roi gwybod i ni os ydynt yn dymuno cymryd rhan yn y Gymraeg ymlaen llaw; ac yn
- sicrhau bod canllawiau ar gael i staff i'w helpu i benderfynu a oes angen cyfleusterau cyfieithu megis darparu deunydd cyflwyniad yn Gymraeg, ac offer cyfieithu ar y pryd gan roi sylw i'r pwnc sydd i'w ystyried a'r lleoliad.

### **4.9 Hunaniaeth gorfforaethol**

Byddwn yn cyflwyno hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog ar bob gohebiaeth, dogfen a chyhoeddiad dwyieithog a ddefnyddir yng Nghymru, gan gynnwys logo dwyieithog Asiantaeth NOMS. Bydd unrhyw ohebiaeth adrannol sy'n cael ei chyfeirio at aelod o'r cyhoedd yng Nghymru neu at garcharor Cymraeg ei iaith yn Lloegr ar bapur pennawd dwyieithog, pa un a yw'r llythyr wedi'i ysgrifennu yn Gymraeg ai peidio.

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

Bydd arwyddion gwybodaeth mewn swyddfeydd NOMS yng Nghymru ac o'u cwmpas ac yn y Ganolfan Cydwasanaethau ger Casnewydd yn ddwyieithog, a bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac eglurder. Byddwn yn sicrhau bod pob arwydd newydd a phob arwydd a osodir yn lle un arall yn ddwyieithog.

Bydd enw, cyfeiriad a logo'r sefydliad yn ddwyieithog a bydd yn cael ei ddefnyddio ym mhob cyhoeddiad/cyfeiriad/cyflwyniad. Byddwn yn sicrhau bod penawdau llythyrau, slipiau cyfarch, dalenni blaen (ffacs ac eraill), cardiau busnes staff, llofnodion e-bost ac eitemau tebyg yn ddwyieithog a bod y ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

### **4.10 Cyhoeddiadau**

Bydd Asiantaeth NOMS yn sicrhau bod cyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg neu mewn fformat dwyieithog os ydynt yn berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru neu os ydynt yn berthnasol i Gymru gyfan oni bai eu bod yn perthyn i un o'r categorïau a nodir isod.

Dyma brif gategorïau'r dogfennau na fyddant yn rhan o gylch gwaith y cynllun hwn:

- dogfennau y disgwylir y bydd eu cylchrediad yn fach iawn;
- dogfennau technegol lle mae eu cylchrediad wedi'i gyfyngu i'r gymuned dechnegol;
- dogfennau wedi'u hanelu at grŵp penodol lle disgwylir y bydd y galw yn y Gymraeg yn isel (yn gyffredinol, dosbarthu i lai na 50 o sefydliadau);
- dogfennau mawr iawn (yn gyffredinol, y rhai hynny sy'n cynnwys mwy na 100 tudalen) sydd, er eu bod ar gael i'r cyhoedd, yn annhebygol o ennyn diddordeb ac ymateb eang.

Os nad yw dogfennau wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg am un neu ragor o'r rhesymau uchod, byddwn yn ystyried cyfieithu'r ddogfen i'r Gymraeg ar gais. Bydd hyn, fodd bynnag, yn ddibynnol ar y galw ac ar ystyriaeth bellach o'r ffactorau uchod.

Mae'n bosibl y bydd rhai achosion prin pan mae cyhoeddi yn y Gymraeg ar gais yn dal yn annichonadwy, megis dogfennau ceisiadau cynllunio a allai fod yn gannoedd o dudalennau. Yn yr achosion hyn byddwn yn cyfieithu dogfen gryno ar gais ac yn sicrhau bod y ddogfen hon ar gael i'r cyhoedd.

Bydd Asiantaeth NOMS yn sicrhau bod pob adroddiad sydd ar gael yn Gymraeg yn cael ei gyfieithu mewn fformat dwyieithog cyn belled na fydd hyn yn gwneud y ddogfen yn anhylaw.

### **4.11 Hysbysiadau i'r wasg**



## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

Byddwn yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg Gymraeg ac i'r cyfryngau darlledu Cymraeg yng Nghymru yn Gymraeg lle mae'r terfynau amser yn caniatáu. Byddwn yn llunio rhestr o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Wasg a'r Cyfryngau Cymraeg yng Nghymru ac yn sicrhau bod y rhestr ar gael i'r staff.

Bydd hysbysiadau i'r wasg ar bob agwedd am ein gwaith yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog yn swyddfeydd NOMS sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Bydd hysbysiadau'n cael eu dosbarthu i ganolfannau cyfryngau Saesneg a Chymraeg yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn ychwanegu at y cyfarwyddiadau swyddfa presennol er mwyn sicrhau bod pob hysbysiad a datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ac er mwyn monitro cydymffurfiaid.

### **4.12 Deunydd cyhoeddusrwydd**

Pan fydd Asiantaeth NOMS yn cynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd sydd wedi'u cyfeirio at bobl o Gymru, byddwn yn cyfathrebu negeseuon yn Gymraeg ac yn Saesneg, er enghraifft mewn posteri, taflenni, hysbysebion a fideos. Pan fyddwn yn cyhoeddi hysbyseb gyffredinol nad yw i ddibenion recriwtio, byddwn yn cyhoeddi fersiwn dwyieithog yn y wasg Gymraeg os yw'n ymwneud â:

- materion o bwysigrwydd sylweddol i Gymru a Lloegr fel ei gilydd;
- materion sydd o ddiddordeb penodol i Gymru.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a gynhyrchir yng Nghymru ar gyfer ei ddefnyddio yng Nghymru, mewn print neu fformat arall, gan gynnwys deunydd arddangosfeydd, yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd Cymraeg a Saesneg, ac yn monitro'r gwaith o'u cynhyrchu, er mwyn sicrhau ansawdd cyson yn y deunydd cyhoeddus terfynol yn y ddau fersiwn.

### **4.13 Gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar ran Asiantaeth NOMS gan eraill**

Byddwn yn sicrhau bod trefniadau a chontractau (gan gynnwys is-gontractau) gyda thrydydd partion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i bobl o Gymru yn gyson â thelerau'r cynllun a'u bod yn cael eu gweithredu yn unol â hynny.

Bydd manylebau ar gyfer gwasanaethau'n cynnwys mesurau perthnasol yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg. Disgwylir i unrhyw sefydliad sy'n gwneud cais am gynnal gweithgareddau, neu y dyfernir grant neu fenthyciad iddo ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys darparu gwasanaeth i bobl yng Nghymru neu i garcharorion o Gymru sydd yn Lloegr nodi yn eu ceisiadau sut y bwriadant ddarparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Bydd hyn yn cael ei ymgorffori wedyn fel un o'r amodau ariannu. Byddwn yn ystyried

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

dogfen ganllawiau Comisiynydd y Gymraeg, [Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Materion yn ymwneud â'r Gymraeg.](#)

Mae NOMS wedi ymrwymo i sicrhau bod ei holl drefniadau comisiynu a chontractio yn adlewyrchu'n llawn ac yn helpu i ddatblygu'r broses o ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn ei waith gyda darparwyr, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth a thrwy ei waith yn rheoli troseddwy'r a'i nod o leihau aildroseddu.

Mae NOMS yn gweithio gyda llawer o bartneriaid, a gellir darparu gwasanaethau drwy drefniadau is-contractio. Er mwyn sicrhau bod darparwyr sy'n gweithio gyda NOMS yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn byddwn yn:

- gwneud yn siŵr fod pob Cytundeb Lefel Gwasanaeth a/neu gontractau/is-gontractau yn gyson â thelerau'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn;
- cynnwys gofynion penodol yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth a/neu ym manylebau contractau/is-gontractau;
- darparu gweithdrefnau ysgrifenedig i staff sy'n ymwneud â Chytundebau Lefel Gwasanaeth a/neu drefniadau contractau/is-gontractau;
- craffu'n ofalus ar bob Cytundeb Lefel Gwasanaeth a/neu gontract/is-gontract er mwyn sicrhau bod y manylebau'n cael eu bodloni. Drwy delerau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a/neu'r contract/is-gontract gallwn sicrhau bod y darparwr yn gweithredu rhannau perthnasol ein Cynllun Iaith.
- lle bo contract yn gweithredu'n genedlaethol (ar gyfer Cymru a Lloegr) disgwylir y bydd y ddarpariaeth a gyflenwir yng Nghymru'n cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg Asiantaeth NOMS a bydd hyn yn cael ei fonitro gan Asiantaeth NOMS.

### **4.14 Partneriaethau**

Mae Asiantaeth NOMS yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, y trydydd sector, y sector preifat a mudiadau ffydd. Wrth weithio gydag eraill bydd Asiantaeth NOMS yn mabwysiadu'r dulliau gweithredu a ganlyn:

- pan fo'n gyfrifol am arweiniad strategol ac ariannol partneriaeth, bydd Asiantaeth NOMS yn sicrhau bod y ddarpariaeth i bobl yng Nghymru ac i garcharorion Cymraeg eu hiaith yn Lloegr yn gydnaws â'i Gynllun Iaith Gymraeg ei hun;
- pan fo'n rhan o bartneriaeth sy'n cael ei harwain gan gorff arall, bydd Asiantaeth NOMS yn sicrhau bod ei fewnbn ei hun i'r bartneriaeth wrth ddarparu gwasanaethau i bobl o Gymru yn gydnaws â'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn a bydd yn annog y partion eraill i wneud yr un modd; a
- pan fo'n gweithredu drwy gydgomisiynu, wrth ddarparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru ac i garcharorion Cymraeg eu hiaith yn Lloegr, bydd Asiantaeth NOMS yn annog pob cydgomisiynydd i gael Cynllun Iaith

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

Gymraeg neu i fabwysiadu ei pholisi iaith. Bydd Asiantaeth NOMS yn gweithredu yn unol â'i Chynllun Iaith Gymraeg ei hun.

Pan fo naill ai'n ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio partneriaeth, bydd Asiantaeth NOMS yn disgwyl i'r darpar bartneriaid ddarparu Cynlluniau Iaith Gymraeg, polisïau iaith neu drefniadau i weithredu'n ddwyieithog yng Nghymru neu wrth ymwneud â charcharorion Cymraeg eu hiaith yn Lloegr. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd Asiantaeth NOMS yn cynnig cyngor a chymorth i'r partion eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

### 5. Staff

#### 5.1 Hyfforddiant a Sgiliau Staff

Bydd swyddfeydd NOMS wedi'u lleoli yng Nghymru a'r Ganolfan Cydasanaethau'n ceisio cael nifer digonol o staff dwyieithog i gyflawni eu busnes yn unol â gofynion y Cynllun hwn, er mwyn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg a sefydliadau eraill rydym yn gweithio gyda nhw.

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn byddwn yn:

- ymgorffori sgiliau ieithyddol mewn Strategaethau Sgiliau Busnes lleol er mwyn asesu a yw gofynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu bodloni;
- ystyried y sgiliau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol swyddi yn y sefydliad gan ddefnyddio'r canllawiau recriwtio. Dilyniir hyn gan archwiliad o sgiliau staff sydd yn y swyddi hynny ar hyn o bryd;
- monitro gallu ieithyddol staff a'u hymwybyddiaeth o'r iaith er mwyn sicrhau bod y sgiliau dwyieithog gennym i fodloni gofynion y Cynllun hwn;
- pennu trefniadau wrth gefn i ymdrin â gohebiaeth neu alwadau yn yr iaith Gymraeg ar adegau pan fo prinder adnoddau dwyieithog mewn swyddfeydd NOMS wedi'u lleoli yng Nghymru;
- Cyfeirio at Ganllawiau Comisiynydd y Gymraeg [Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog](#) yn ôl y galw.

Bydd **staff a leolir yng Nghymru sy'n** gyfrifol am ymdrin â galwadau allanol yn cael hyfforddiant Cymraeg sylfaenol. Cynigir hyfforddiant i staff hefyd, er mwyn datblygu neu wella eu sgiliau siarad ac ysgrifennu Cymraeg. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- cefnogi staff sy'n dymuno mynychu cyrsiau i wella eu sgiliau siarad/ysgrifennu Cymraeg;
- darparu hyfforddiant mewnol er mwyn gwella cywirdeb wrth ysgrifennu;

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

- ystyried yr anghenion hyfforddiant a nodwyd yn ystod y cyfnod cynefino a dilyn hynny mewn gwerthusiadau, er mwyn cynllunio cyrsiau datblygu iaith i staff yn unol â'u ceisiadau ac yn unol ag anghenion swyddfeydd NOMS wedi'u lleoli yng Nghymru.

### 5.2 Recriwtio

Pan fydd hysbysebion yn cael eu rhoi mewn cyhoeddiadau a ddosberthir yng Nghymru, bydd swyddfeydd Asiantaeth NOMS yn gwneud hynny mewn fformat dwyieithog, yn unol â chanllawiau recriwtio NOMS.

Wrth recriwtio staff mewn lleoliad sy'n ymdrin â phobl o Gymru, ystyrir gallu'r staff presennol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac, os oes angen, mae'n bosibl y cymerir y cyfle i fynd i'r afael â diffygion yng ngallu'r lleoliad i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd natur ieithyddol yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu a defnyddwyr y gwasanaeth hefyd yn cael eu hystyried er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn â'r gofynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Yn yr achosion hyn byddwn yn dilyn canllawiau Comisiynydd y Gymraeg [Recriwtio a'r Iaith Gymraeg](#). Bydd swyddfeydd NOMS wedi'u lleoli yng Nghymru yn cynnig cyfarwyddyd i unrhyw leoliad sy'n recriwtio i swyddi y mae'r iaith Gymraeg yn un o'r elfennau sydd i'w hystyried.

Bydd canllawiau recriwtio Asiantaeth NOMS yn cael eu diwygio i gynnwys sgiliau Cymraeg. Wrth ystyried a yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu'n ddiangen defnyddir y meini prawf a ganlyn:

- faint o gysylltiad fydd yna â phobl o Gymru
- lefel y sgiliau presennol yn yr adran
- lefel y sgiliau presennol yn y lleoliad/swyddfa

We will employ a sufficient number of bilingual staff to enable Welsh language Byddwn yn cyflogi digon o staff dwyieithog i sicrhau bod modd cyflawni gwaith Cymraeg yn effeithiol ac yn effeithlon o fewn yr amserlenni a bennwyd.

Lle bernir bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd, a lle defnyddir y wasg Gymraeg, bydd yr hysbyseb yn ymddangos yn Gymraeg yn unig. Byddwn yn monitro ac yn gwneud yn siŵr fod hysbysebion recriwtio'n cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â'n gofynion.

Bydd deunydd recriwtio allanol ar gyfer swyddi wedi'u lleoli yng Nghymru'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog a byddant yn nodi a yw'n ddymunol neu'n hanfodol gallu siarad a/neu ysgrifennu Cymraeg. Bydd y broses bresennol o wneud cais yn cael ei haddasu er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr allanol yn cael cyfle i ymgeisio am swyddi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

Byddwn yn sicrhau bod pob ymgeisydd am swydd yng Nghymru sy'n cael gwahoddiad i gyfweiliad yn cael y dewis o gael cyfweiliad dwyieithog. Gallai cyfran y Gymraeg a'r Saesneg a ddefnyddir mewn cyfweiliad amrywio ar sail y gyfran o'r Gymraeg a'r Saesneg y bydd ei hangen yn y swydd ei hun. Byddwn yn cynnwys canllawiau ar gyfweiliadau dwyieithog yn y canllawiau recriwtio ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â recriwtio er mwyn sicrhau bod y safonau'n cael eu bodloni.

### **6. Sut fydd y cynllun yn berthnasol i garchardai**

#### **6.1 Carcharorion yng Nghymru**

Mae pedwar carchar yng Nghymru - Carchar Caerdydd, Carchar Abertawe, Carchar Brynbuga/Prescoed a Charchar/Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Parc. Er nad oes digon o le yng ngharchardai Cymru ar gyfer yr holl droseddwy'r sy'n cael eu dedfrydu i garchar gan lys yng Nghymru, byddwn yn ceisio cael lle i garcharorion o Gymru yng Nghymru os yw hynny'n ymarferol. Er mwyn cyfleu persbectif, mae Atodiad C yn dangos ym mha garchar yr oedd troseddwy'r o Gymru'n cael eu cadw ym mis Medi 2010. Bydd y cynllun yn sicrhau bod carcharorion sy'n nodi mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith yn gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae llawer o'r gwasanaethau mewn carchardai yng Nghymru eisoes yn cael eu darparu yn Gymraeg. Mae'r Cynllun hwn yn ceisio gwella'r gwasanaethau hynny a defnyddio'r arferion da, y sgiliau a'r profiad yn y carchardai hyn i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg yn Lloegr.

#### **6.2 Carcharorion yn Lloegr**

Rydym yn cydnabod y bydd nifer o garcharorion Cymraeg eu hiaith mewn carchardai yn Lloegr a fydd, o bosib, yn dymuno defnyddio gwasanaethau yn Gymraeg. Rydym yn ystyried ar hyn o bryd beth yw'r ffordd orau o hwyluso hyn, gan nad oes gennym ddata ar hyn o bryd i bennu ble mae'r galw mwyaf. Fodd bynnag, byddwn yn annog carcharorion Cymraeg eu hiaith i gyfleu eu dymuniadau o ran eu hanghenion unigol ac, o ganlyniad, yn hybu ymgysylltu cadarnhaol gan y staff yn y carchar.

Nid oes carchar ar gyfer merched yng Nghymru ac mae hyn yn golygu bod carcharorion benywaidd yn cael eu cadw mewn carchardai yn Lloegr. Er mwyn sicrhau nad yw carcharorion benywaidd sy'n siarad Cymraeg dan anfantais, efallai y bydd angen gwella'r mynediad at y Gymraeg yn y carchardai ar gyfer merched. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried beth yw'r ffordd orau ymlaen a byddem yn croesawu barn ein rhanddeiliaid ar hyn yn ystod yr ymgynghori. Gweler Cwestiwn 2 y Templed Ymateb i Ymgynghoriad (tudalen 53).

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

Fel gyda phob carcharor, bydd cyfle i wneud cais i drosglwyddo. Trafodir gyda'r carcharor unrhyw effaith y bydd newid lleoliad yn ei gael ar fynediad at y Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau bod anghenion troseddwy'r yn cael eu nodi a'u cofnodi cyn gynted ag y bo modd – naill ai adeg cynefino neu drwy ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd gan y llysoedd. Byddwn yn ceisio datblygu sgiliau ieithyddol troseddwy'r sy'n siarad Cymraeg ac yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg gadw cysylltiadau â'u cefndir ieithyddol. O ran troseddwy'r di-Gymraeg a fydd yn ailsefydlu yng Nghymru, byddwn yn darparu gwybodaeth iddynt am gyfleoedd i gael sgiliau Cymraeg.

Byddwn yn monitro faint o'r carcharorion sy'n dod i garchardai yn Lloegr sy'n nodi mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith, ac o ble maent yn dod (llysoedd Cymru, carchardai eraill). Pan fydd digon o ddata ar gael i ni, byddwn yn gallu pennu ble fydd y mwyafrif o'r siaradwyr Cymraeg a byddwn yn cynllunio yn unol â hynny.

Byddwn yn gweithio gyda Gwasanaeth Llysoedd EM er mwyn darganfod y ffordd orau o rannu gwybodaeth am droseddwy'r sy'n nodi mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith er mwyn gallu darparu gwasanaethau Cymraeg perthnasol.

### **7. Y Gwasanaeth Cymraeg mewn Carchardai**

Er mwyn sicrhau bod gofynion y cynllun hwn yn cael eu hystyried yng ngwaith y Gwasanaeth Carchardai o ddydd i ddydd byddwn yn cyhoeddi Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai (PSI) newydd ar yr iaith Gymraeg. Bydd y cyfarwyddyd newydd yn llywio'r gwasanaeth drwy ofynion y Cynllun hwn. Lle mae diffygion yn y polisi presennol, bydd y Gorchmynion Gwasanaeth Carchardai (PSOs) a'r PSIs perthnasol yn cael eu hamlygu, ynghyd â chymau penodol y dylid eu cymryd.

Ceir manylion am y dogfennau polisi perthnasol a'u paragraffau arwyddocaol yn yr adrannau isod. Maent hefyd wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn Atodiad B.

***Mae angen diweddarau nifer o'n dogfennau polisi (PSOs, PSIs ac ati) i adlewyrchu ein hymrwymadau o ran yr iaith Gymraeg. Wrth wneud y newidiadau hyn, byddwn yn sicrhau y cyfeirir at fynediad at yr iaith Gymraeg ar wahân a byddwn yn dileu unrhyw gysylltiadau â grwpiau penodol a allai fod wedi'u rhestru yn y ddogfen hon, hynny yw carcharorion sy'n wladolion tramor. Sylwch efallai bod yr iaith a ddefnyddir i ddyfynnu polisi sy'n bodoli wedi dyddio.***

#### **7.1 Cynefino**

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

Mae Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai (PSI) 74/2011 (Sesiynau Cynefino ar gyfer Carcharorion) yn ei gwneud yn ofynnol i bob carchar yng Nghymru a Lloegr ddarparu proses gynefino a fydd yn sicrhau bod carcharorion yn gallu deall rhaglen gynefino'r carchar. Mae hyn yn cynnwys cofnodi dewis iaith carcharor ar yr adeg y mae'n cael ei dderbyn i'r carchar, canfod a yw'n deall Saesneg ac i ba raddau y mae'n gallu cyfathrebu yn yr iaith honno (Para 2.3).

Mae'r cynllun hwn yn datblygu disgwyliadau Gorchymyn 0550 drwy ychwanegu y bydd y carchar, pan fo'n derbyn y carcharor a/neu'n ei gyflwyno i'r carchar, yn canfod ai'r Gymraeg yw dewis iaith y carcharor ac yn cofnodi'r wybodaeth hon. Os y Gymraeg yw dewis iaith y carcharor, bydd y carchar yn ystyried yr opsiwn o drosglwyddo. Yn y cyfamser bydd y carchar yn sicrhau bod:

- gwybodaeth gynefino'n cael ei darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg (Para 4.2 a 6.1).
- darpariaeth ar gael ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y rhaglen gynefino (Para 4.2 a 6.1);
- carcharorion yn cael gwybod pa wybodaeth sydd ar gael iddynt yn Gymraeg (Para 6.1);
- carcharorion yn cael gwybod beth yw eu hawliau a beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer ysgrifennu llythyrau, galwadau ffôn ac ymweliadau drwy gyfrwng y Gymraeg (Para 6.2);
- carcharorion yn cael gwybod y gallant gael mynediad at ddeunydd darllen, teledu a DVDs Cymraeg a dysgu a sgiliau drwy gyfrwng y Gymraeg os yw hynny'n berthnasol (Para 6.6 a 6.9).

Bydd staff carchar sy'n derbyn troseddwr yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng iaith gyntaf a 'dewis iaith' a byddant yn holi pa un yw dewis iaith y troseddwr cyn gwneud unrhyw drefniadau ar gyfer trosglwyddiad. Mae'n bwysig canfod pa iaith yw dewis iaith carcharor; bydd rhai troseddwr sy'n siarad Cymraeg yn teimlo'n ddigon cyfforddus wrth ddarllen papur newydd Cymraeg neu wrth gael sgwrs anffurfiol yn y Gymraeg, ond yn teimlo'n anghyfforddus wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfa ffurfiol. Bydd cael y cyfnod cynefino'n iawn yn ffactor allweddol er mwyn sicrhau bod mynediad at yr iaith Gymraeg yn ddigonol ar bob achlysur dilynol.

Fel gyda phob carcharor, bydd cyfle i wneud cais i drosglwyddo, ond bydd angen trafod yr effaith gyda'r carcharor er mwyn sicrhau eu bod yn deall effaith trosglwyddo, e.e. newid mewn lleoliad a mynediad at wasanaethau Cymraeg a sut y gallai hyn effeithio arnynt.

Bydd carchardai yng Nghymru'n sicrhau bod unrhyw wybodaeth am gynefino ar gael yn rhwydd yn Gymraeg a bod unrhyw gais am gyfieithiad i'r Gymraeg yn cael ei drin yn briodol ac yn deg, ac yn unol â'r Cynllun hwn.

### **7.2 Ysgrifennu Llythyrau**

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

Caiff carcharorion ysgrifennu llythyrau yn eu dewis iaith, ond bydd angen cyfieithu llythyrau nad ydynt wedi eu hysgrifennu yn Saesneg sydd i fod i gael eu darllen fel mater o drefn neu sydd wedi eu hysgrifennu gan garcharorion risg uchel / cat A.

### 7.3 Galwadau ffôn

Gellir siarad ar y ffôn yn y ddewis iaith, felly bydd carcharorion Cymraeg eu hiaith yn gallu siarad Cymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny. Yr unig eithriad i hyn yw galwadau ffôn a wneir gan garcharorion Categori A risg uchel a risg eithriadol. Mae'n rhaid cynnal y galwadau ffôn hynny yn Saesneg. Os nad yw'r galwr neu'r sawl sy'n derbyn yr alwad yn siarad neu'n deall Saesneg, gellir defnyddio iaith arall, yn ôl disgrisiwn lleol, ar yr amod bod rhywun ar gael i gyfieithu'r alwad. Os nad yw hyn yn bosibl, gellir recordio galwad gan garcharor risg uchel ond rhaid i'r alwad gael ei chyfieithu cyn pen 48 awr.

### 7.4 Ymweliadau

Nid yw ein polisi ymweliadau cyfredol (PSI 16/2011) yn cyfeirio'n glir at ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a byddwn yn diwygio hwn er mwyn sicrhau ei bod yn glir bod yr hawl i gynnal ymweliadau yn Gymraeg yn bodoli.

Byddwn yn trafod gydag arweinwyr polisi sut y gallwn sicrhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg yn gyson â'r trefniadau diogelwch, er mwyn sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg dan anfantais, a byddwn yn diweddarau ein polisiau yn unol â hynny.

### 7.5 Mynediad at ddeunydd darllen Cymraeg

**Byddwn yn gweithio â llyfrgelloedd carchardai er mwyn sicrhau bod stoc y llyfrgell yn cynnwys digon o ddeunydd darllen Cymraeg a'i bod yn cynrychioli poblogaeth y carchar lleol yn briodol. Bydd geiriad y polisi'n cael ei ddiweddarau'n fwy cyffredinol hefyd er mwyn cyfeirio'n briodol at anghenion grwpiau penodol.**

Byddwn yn gweithio â charchardai er mwyn sicrhau bod gan pob carcharor yng Nghymru a Lloegr fynediad at amrywiaeth o gyhoeddiadau Cymraeg. Bydd nifer y cyhoeddiadau Cymraeg yn dibynnu ar y gyfran o boblogaeth y carchar sy'n siarad Cymraeg. Dylid newid y cyhoeddiadau hyn bob blwyddyn, fel y mae cyhoeddiadau eraill yn cael eu newid, yn unol â'r cyfarwyddiadau yn y Fanyleb Llyfrgelloedd Carchar (Para 6.1).

Bydd carchardai yng Nghymru'n darparu amrywiaeth dda o gyhoeddiadau Cymraeg a deunydd darllen arall; a bydd y llenyddiaeth a gedwir yn llyfrgelloedd y carchardai yn Lloegr yn seiliedig ar boblogaeth y carchar lleol. Dylai carchardai



## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

hefyd ystyried ceisiadau am lenyddiaeth Gymraeg benodol ar sail achosion unigol.

### **7.6 Mynediad at Deledu, DVDs a Radio yn y Gymraeg**

Os oes gan garchar DVDs, dylid sicrhau bod DVDs Cymraeg ar gael hefyd ochr yn ochr â rhai Saesneg, ar sail y gyfran o boblogaeth y carchar sy'n siarad Cymraeg. Dylid newid y stoc yn rheolaidd.

Mae PSI 11/2011 – Cymhellion a Breintiau a Enillir, yn nodi y gall carcharorion sydd ar lefel braint safonol neu uwch gael teledu yn eu celloedd. Mae teledu Cymraeg ar gael yn Lloegr drwy Sky Digital. Os yw carchar yn gallu cael y gwasanaethau hyn dylai helpu carcharorion sydd â hawl i gael teledu yn eu celloedd ac sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth hwnnw. Yn yr un modd, os oes dewisiadau ar gyfer cael mynediad i deledu Cymraeg drwy'r rhyngrwyd dylid archwilio'r rhain hefyd drwy'r canlynol:

- Gwyllo S4C yn fyw ar-lein
- S4C ar iPlayer (dal i fyny)

Os nad yw carchar yn gallu cael mynediad at y naill na'r llall o'r gwasanaethau hyn dylai sicrhau bod y carcharorion hynny sydd wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith ac sydd â theledu yn eu celloedd hefyd yn cael mynediad at wasanaeth teletestun er mwyn cael is-deitlau (Para 4.1 a 4.2).

Yng Nghymru, mae'n bosibl cael S4C, y sianel Gymraeg, fel rhan o deledu daearol a thrwy Freeview neu Sky Digital. Gellir sicrhau mynediad at raglenni Cymraeg i'r carcharorion hynny sydd â hawl i gael teledu yn eu celloedd ac sydd wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith pe baent yn dymuno cael y gwasanaeth hwnnw.

Lle ceir mynediad at orsaf radio carcharorion, dylid ymchwilio i'r cyfleoedd ar gyfer rhaglen radio Gymraeg.

### **7.7 Mynediad at ddysgu a sgiliau**

Nid oes disgwyl i garchardai yn Lloegr ddarparu gwasanaethau dysgu a sgiliau yn Gymraeg fel darpariaeth arferol, ond dylent ystyried opsiynau ar gyfer mynediad os canfyddir bod angen lleol am hyn.

Bydd carchardai yn darparu gwasanaethau dysgu a sgiliau yn Gymraeg yn ôl yr angen gan ddibynnu ar nifer y rhai â'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt sydd ym mhoblogaeth y carchar. Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu hasesu ynghyd â'r holl wasanaethau dysgu a sgiliau eraill er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth mwyaf priodol yn cael ei ddarparu.

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

Bydd carcharorion yn y carchardai hyn yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r gwasanaethau a'r cyrsiau sydd ar gael yn Gymraeg, ac ynglŷn â'u hawl i ofyn am wasanaethau yn Gymraeg.

Byddwn yn edrych ar gynyddu gallu mewn carchardai drwy ddefnyddio sgiliau iaith ein staff a'r carcharorion.

Bydd gofynion Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol. O ganlyniad, bydd pob darpariaeth gwasanaethau dysgu a sgiliau sy'n cael ei datblygu yn cael ei hasesu cyn cael ei gweithredu, er mwyn sicrhau bod effaith y newid yn sicrhau cydraddoldeb.

### **7.8 Gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn Carchardai gan eraill**

Ni ddisgwylir i'r mwyafrif o'r carchardai gael cymalau penodol yn ymwneud â darpariaeth Gymraeg ar gyfer sefydliadau sy'n gwneud cais i weithio neu sydd eisoes yn gweithio yn y carchar.

Bydd manylebau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir mewn carchardai yn cynnwys mesurau perthnasol yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg. Gellir disgwyl i unrhyw sefydliad sy'n gwneud cais i weithio neu sydd eisoes yn gweithio mewn carchar yng Nghymru ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Mae'n rhaid i wasanaethau mewn carchardai eraill hefyd gydymffurfio â'n Cynllun Iaith Gymraeg, a lle mae angen gwasanaethau yn y Gymraeg, dylai'r rhain fod ar gael. Bydd disgwyliadau'n cael eu hymgorffori mewn contractau fel amodau ariannu, a bydd angen i gais i weithio gyda'r carchardai hyn nodi sut y bwriedir darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg os oes angen.

Mae ein templed cytundeb grant wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar i gyfeirio'n benodol at gydymffurfio â'n Cynllun. Mewn prosesau tendro yn y dyfodol, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos sut y byddant yn cydymffurfio â'r Cynllun.

Byddwn yn ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg, *Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Materion yn ymwneud â'r Gymraeg*, pa bryd bynnag y bydd angen gwneud hynny.

### **7.9 Carchardai sy'n gweithredu dan contract**

Bydd yn ofynnol i bob carchar sy'n gweithredu dan contract fodloni disgwyliadau'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn, pa un a ydynt yng Nghymru neu yn Lloegr. Bydd y disgwyliadau hyn yn cael eu hymgorffori mewn contractau gyda phob carchar sy'n gweithredu dan contract.

## **8. Gweithredu'r Cynllun**

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

### 8.1 Cyfrifoldeb am y Cynllun

Lluniwyd y cynllun gan Grŵp Merched a Chydraddoldebau NOMS a bydd y Grŵp hefyd yn monitro ei weithrediad. Bydd gan bob Llywodraethwr Llywodraethol / Cyfarwyddwr gyfrifoldeb dirprwyedig ym mhob carchar am sicrhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn cael eu rhoi ar waith yn y carchar. Darperir enw cyswllt i'r Grŵp Merched a Chydraddoldebau, a bydd yr unigolyn hwnnw'n monitro gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg mewn sefydliadau. Bydd rhwydwaith o'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun yn lleol yn cael ei baratoi gan y Grŵp Merched a Chydraddoldebau a bydd ar gael ar draws y Gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am rannu'r arferion gorau a bydd yn gyswllt defnyddiol â'r Grŵp o ran cymorth a chynghor.

Bydd rheolwyr lleol sy'n cael y cyfrifoldeb o sicrhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei weithredu yn hybu'r arferion gorau yng nghyswllt yr iaith Gymraeg ynghyd ag agweddau eraill ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Byddwn yn rhoi statws uchel i'n Cynllun Iaith Gymraeg ac i'w weithredu. Bydd y cyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun yn cael ei ddsbarthu drwy'r Asiantaeth fel y nodir isod:

- bydd Prif Swyddog Gweithredol Asiantaeth NOMS yn gyfrifol am sicrhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei weithredu;
- bydd Pennaeth y Grŵp Merched a Chydraddoldebau yn Asiantaeth NOMS yn cydlynu'r gwaith o weithredu'r cynllun, gan gysylltu â'r swyddfeydd NOMS eraill er mwyn rhannu'r arferion gorau;
- bydd Cyfarwyddwyr yn cymhwyso gofynion y cynllun i'w hadrannau swyddogaethol;
- bydd cyfrifoldeb lleol, sy'n cynnwys is-adrannau o fewn swyddogaethau pencadlys Asiantaeth NOMS, yn cael ei ddirprwyo i Uwch Reolwyr enwebedig a fydd yn gyfrifol am weithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd;
- Mewn sefydliadau carchar yng Nghymru a Lloegr bydd gan bob Llywodraethwr Llywodraethol gyfrifoldeb dirprwyedig i sicrhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn cael eu gweithredu yn y carchar drwy PSI newydd. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n ganolog gan y Grŵp Merched a Chydraddoldebau;
- bydd Ymddiriedolaeth Prawf Cymru'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun ar gyfer Gwasanaethau Prawf yng Nghymru;
- yn y Ganolfan Cydwasanaethau, bydd Uwch Reolwr enwebedig yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun. Bydd y Grŵp Merched a Chydraddoldebau yn cadw rhestr o'r staff sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig am fynediad at yr iaith Gymraeg ar draws y Gwasanaeth. Bydd hwn yn gweithio fel rhwydwaith gefnogi a bydd yn adnodd defnyddiol ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arferion gorau.

### 8.2 Ymwybyddiaeth Staff a Chanllawiau

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

Bydd y cynllun hwn yn weithredol o'r dyddiad y mae'n cael ei roi ar waith. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod yr holl staff sy'n ymwneud â llunio polisiau a gwasanaethau cefnogi'n ymwybodol o ofynion y cynllun ac yn eu hystyried wrth wneud eu gwaith. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy:

- roi cyfle i staff ymateb i fersiwn drafft o'r Cynllun Iaith Gymraeg;
- sicrhau bod copi o'r cynllun ar gael i'r holl staff;
- cyhoeddi PSI i'r staff a fydd yn cynnwys canllawiau ynghylch:
  - ymdrin â gohebiaeth yn yr iaith Gymraeg;
  - defnyddio'r cyfieithwyr ar gontract;
  - pa bryd i ystyried cyhoeddi dogfennau, cyhoeddiadau a deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog neu ddogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg;
  - goblygiadau'r cynllun hwn i'r rhai hynny sy'n caffael gwasanaethau gan drydydd partion.

Bydd swyddfeydd NOMS wedi'u lleoli yng Nghymru a'r Ganolfan Cydwasaethau'n darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i'r holl staff, er mwyn deall yr angen i gael mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd Hyrwyddwyr y Gymraeg yn cael eu dynodi yn swyddfeydd NOMS wedi'u lleoli yng Nghymru er mwyn hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg ymhlith y staff.

### **8.3 Staffio a Hyfforddiant Staff**

Bydd hyfforddiant cynefino'n cynnwys ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r ffordd y bydd yn cael ei gymhwyso yn eu carchar. Bydd ansawdd ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei fonitro.

Os oes angen staff sy'n siarad Cymraeg mewn lleoliadau ar wahân i leoliadau yng Nghymru yna dylid dilyn y canllawiau uchod ar recriwtio a hyfforddi.

Byddwn yn cefnogi'r syniad o sefydlu Hyrwyddwyr y Gymraeg mewn carchardai yng Nghymru er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith Gymraeg yn lleol a helpu i rannu'r arferion gorau.

### **8.4 Recriwtio**

Pan fydd hysbysebion yn cael eu rhoi mewn cyhoeddiadau a ddosberthir yng Nghymru, bydd swyddfeydd Asiantaeth NOMS yn gwneud hynny mewn fformat dwyieithog, yn unol â chanllawiau recriwtio NOMS.

Ni ddisgwylir i'r mwyafrif o'r carchardai gael staff â sgiliau Cymraeg oherwydd bod carcharorion sy'n siarad Cymraeg ac yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg yn

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

debygol o fod mewn carchar yng Nghymru. Byddwn yn defnyddio'r sgiliau iaith sydd ar gael yn yr ystad carchardai yng Nghymru, ond os oes bylchau byddwn yn edrych ar gynyddu'r gallu mewn carchardai lle mae galw lleol.

Bydd carchardai yng Nghymru yn asesu a yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer pob swydd gan ddefnyddio'r canllawiau recriwtio (a nodir yn adran \*\*) ac yn asesu lefel briodol y ddarpariaeth Gymraeg ar sail nifer y carcharorion o Gymru sydd wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith. Bydd hyn yn cynnwys:

- yr angen am wasanaethau Cymraeg ar sail nifer y troseddwr sydd wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith;
- faint o gyswllt sydd i'w gael â throseddwr sydd wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith;
- lefel y sgiliau presennol yn yr adran;
- lefelau y sgiliau presennol yn y sefydliad.

### **8.5 Staffio a hyfforddiant staff**

Byddwn yn sicrhau bod holl staff y Gwasanaeth Carchardai'n ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud wrth gyflawni eu gwaith. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy:

- roi cyfle i staff ymateb i fersiwn drafft o'r Cynllun Iaith Gymraeg;
- sicrhau bod copi o'r cynllun ar gael i'r holl staff.

Bydd canllawiau recriwtio diwygiedig Asiantaeth NOMS, a fydd yn cynnwys sgiliau Cymraeg, yn cael eu defnyddio yn ôl y galw er mwyn recriwtio ac asesu'r angen am hyfforddiant.

Byddwn yn ymgorffori sgiliau ieithyddol mewn Strategaethau Sgiliau Busnes Lleol mewn carchardai yng Nghymru a charchardai yn Lloegr lle bo'r angen, er mwyn asesu a oes angen busnes am hyfforddiant Cymraeg i staff, mewn rolau penodol. I ddechrau, bydd hyn yn galw am asesiad o'r staff presennol a lefel eu sgiliau Cymraeg. Cynigir hyfforddiant os gellir dangos angen busnes.

Rhoddir canllawiau i staff yn nodi sut i ymateb i ymholiadau a wneir yn Gymraeg.

### **8.6 Gwasanaethau cyfieithu**

Bydd dogfennau safonol ym mhob carchar yn cael eu cyfieithu'n ganolog a'u dosbarthu yn Gymraeg, a bydd y Grŵp Merched a Chydraddoldebau yn gyfrifol am wneud hyn. Bydd gan bob carchar lawer o wybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â'i sefydliad ei hun. Ni fydd yn ofynnol i'r mwyafrif o'r carchardai yn Lloegr gyfieithu'r wybodaeth hon i'r Gymraeg fel arfer (oni bai fod hynny eisoes wedi'i nodi'n benodol yn y cynllun hwn) ond os gwneir ceisiadau bydd rhaid i'r carchar ddarparu ar eu cyfer. Dylai carchardai yng Nghymru geisio sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i bob carcharor wedi cael ei chyfieithu i'r Gymraeg. Bydd gwasanaethau cyfieithu'n cael eu hysbysebu'n amlwg ar draws yr ystad carchardai.

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

Bydd gwasanaethau dan contract yn cael eu darparu ar gyfer Cymru a Lloegr er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am yr arian a byddant ar gael i bob rhan o NOMS, gan gynnwys y Gwasanaeth Carchardai. Mae'n bosibl y bydd darparwyr y gwasanaethau'n amrywio, ond bydd y gwasanaethau sydd ar gael drwy'r contract hwn yn cynnwys:

- cyfieithu ysgrifenedig
- cyfieithu ar y pryd (gwrando ar sgwrs ffôn neu ymweliad a chyfieithu ar y pryd),
- os oes angen, cyfieithydd yn eistedd i wrando ar sgwrs mewn carchar er mwyn cyfieithu.

### **9. Monitro'r Cynllun a Chyhoeddi Gwybodaeth**

Mae'r adran ganlynol yn berthnasol i Asiantaeth NOMS yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys carchardai yng Nghymru a Lloegr, y Ganolfan Cydwasanaethau a swyddfeydd NOMS wedi'u lleoli yng Nghymru. Bydd Ymddiriedolaeth Prawf Cymru Gyfan yn cyhoeddi ac yn monitro ei chynllun ei hun.

#### **9.1 Rheoli Perfformiad**

Bydd perfformiad yn erbyn gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn rhan hanfodol o'n Fframwaith Rheoli Perfformiad. Byddwn yn cyfeirio'n benodol at y perfformiad hwn yn elfen Gydraddoldebau ein hadroddiadau perfformiad cenedlaethol.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, a fydd yn galluogi'r sefydliad i gyflawni'r amcanion a ganlyn a fydd yn:

- mesur a yw Asiantaeth NOMS yn cydymffurfio â'r Cynllun;
- mesur ansawdd y gwasanaeth cyfrwng Gymraeg;
- mesur effeithiolrwydd trefniadau rheoli'r Cynllun;
- mesur pa mor ddigonol yw sgiliau ieithyddol Asiantaeth NOMS drwy gymharu'r adnoddau presennol a'r angen;
- dadansoddi perfformiad ar sail adrannol, gorfforaethol a thematig er mwyn sicrhau cysondeb; a
- nodi unrhyw wendidau allweddol â chynllun gweithredu ac amserlen i gywiro'r sefyllfa.

#### **9.2 Monitro**

Bydd trefniadau monitro'n ymwneud yn benodol â'r canlynol:

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

- **blaengynllunio a chaffael:** gweithredu'r polisïau a'r gwasanaethau presennol (sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau newydd, cyhoeddiadau newydd a rhaglenni cyfrifiadurol yn mynd i fod yn gydnaws â darparu gwasanaethau dwyieithog ar sail cydraddoldeb, ac nad yw'r polisïau a'r gweithdrefnau presennol yn atal eraill rhag darparu'r gwasanaethau hynny): Bob blwyddyn byddwn yn atgoffa llunwyr polisïau a rheolwyr gweithrediadau i ystyried cymhwysiad y cynllun i'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny y maent yn gyfrifol amdanynt wrth iddynt lunio eu cynlluniau busnes blynyddol newydd; a byddwn yn gofyn iddynt adrodd bob blwyddyn ar waith yn deillio o ofynion y cynllun sydd ar y gweill, yn mynd i ddiwydd yn y flwyddyn nesaf neu wedi cael ei wneud yn y flwyddyn ddiwethaf.
- **Ymdrin ag aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg:** Gofynnir i bob uned busnes fonitro a chyflwyno adroddiad o bryd i'w gilydd am y trefniadau yn y cynllun hwn ar gyfer cyfarfodydd gyda phobl o Gymru.
- **Ein hwyneb cyhoeddus:** Bydd yn ofynnol i bob uned busnes fonitro, cofnodi a chyflwyno adroddiad o bryd i'w gilydd ar ddogfennau neu hysbysiadau dwyieithog y mae'n eu cyhoeddi ac nad ydynt yn cael eu cynhyrchu a/neu eu dosbarthu gan uned y wasg a chyhoeddiadau.
- **Asiantau a chontractwyr:** Bydd yn ofynnol i bob uned busnes sy'n defnyddio asiantau neu gontractwyr i ddarparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru neu i garcharorion Cymraeg eu hiaith yn Lloegr fonitro a chyflwyno adroddiad blynyddol ar y graddau y mae'r asiantau neu'r contractwyr yn cydymffurfio â thelerau eu cytundebau neu eu trefniadau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

Ar ôl cael cymeradwyaeth, bydd copi o'r adroddiad swyddogol yn cael ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg.

### 9.3 Adolygu

Yn nhrydedd flwyddyn gweithredu'r Cynllun, bydd Asiantaeth NOMS yn adolygu ac yn diweddarau ei Chynllun Iaith Gymraeg ac yn llunio dogfen ddiwygiedig. Bydd Asiantaeth NOMS hefyd yn paratoi adroddiad arfarnu, a fydd yn dadansoddi perfformiad wrth weithredu'r Cynllun yn ystod y tair blynedd gyntaf. Bydd yr adroddiad trydedd flwyddyn hwn yn cynnwys:

- trosolwg a dadansoddiad thematig o berfformiad a chydymffurfriad â'r Cynllun dros y tair blynedd, o ran ansawdd y gwasanaeth cyfrwng Gymraeg a rheoli'r Cynllun; ac
- amlinelliad o nodau ac amcanion pellach Asiantaeth NOMS a thargedau ar gyfer y tair blynedd ddilynol ynghyd ag amserlen weithredu ddiwygiedig. Yn ychwanegol at hyn, bydd yr adroddiad yn amlinellu unrhyw newidiadau neu

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

ychwanegiadau y mae Asiantaeth NOMS yn credu y dylent gael eu cynnwys yn y Cynllun diwygiedig.

## 10. Rhoi Cyhoedduswydd i'r Cynllun

### 10.1 Hygyrchedd y Cynllun

Byddwn yn rhoi cyhoedduswydd i'r cynllun, pan fydd wedi cael ei gytuno a'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg, drwy

- gyhoeddi hysbysiad i'r wasg;
- darparu copïau caled i lyfrgelloedd y carchardai, a'i gyhoeddi ar ein mewnwyd;
- cysylltu ag Asiantaethau Cyfiawnder troseddol eraill yng Nghymru er mwyn rhoi cyhoedduswydd i'r cynllun a'n gwasanaeth Cymraeg;
- sicrhau bod y cynllun ar gael fel dogfen ddwyieithog yn rhad ac am ddim gan swyddfa'r wasg ac ar ein gwefan yn:

Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain  
SW1H 9AJ

<http://www.justice.gov.uk/publications.htm>

Byddwn yn monitro'n perfformiad wrth fodloni'r ymrwymadau a wnaethpwyd yn y cynllun hwn ac yn cofnodi'r galw am wasanaethau Cymraeg, gan gynnwys unrhyw alw am wasanaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r ymrwymadau rydym wedi eu gwneud.

### 10.2 Ymwybyddiaeth Staff

Byddwn yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'n Cynllun. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- gwneud cyfeiriad amlwg at ei ddatblygiad a'i brif nodweddion yn y cynllun corfforaethol neu flynyddol;
- dosbarthu taflenni electronig yn disgrifio prif nodweddion y Cynllun i'n rhanddeiliaid;
- monitro ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith Gymraeg ymhlith staff.

## 11. Gwybodaeth Bellach ac Adborth

Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella'r Cynllun. Dylid anfon awgrymiadau i [welshlanguage@noms.gsi.gov.uk](mailto:welshlanguage@noms.gsi.gov.uk)



## 12. Ymholiadau a Chwynion

Y pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau a chwynion yn ymwneud â Chynllun Iaith Gymraeg Asiantaeth NOMS yw Suzanne Dean yn y cyfeiriad canlynol:

**Women & Equalities Group, NOMS**

**3.16**

**Clive House**

**Petty France**


**Llundain**

**SW1P 9HD**

Neu: [welshlanguage@noms.gsi.gov.uk](mailto:welshlanguage@noms.gsi.gov.uk)

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

**13. Cyfrifoldeb am y Cynllun**



CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

ATODIADI A

**Cynllun Gweithredu ar gyfer rhoi Cynllun Iaith Gymraeg Asiantaeth NOMS ar waith**

	<b>CAM GWEITHREDU</b>	<b>PERCHENNOG CYFRIFOL / CYDLYNYDD</b>	<b>DYDDIAD CYFLAWNI TARGED</b>
	<b>Cynhyrchu'r Cynllun a Rheoli ei Weithrediad</b>		
1	Cyhoeddi ein Cynllun Iaith Gymraeg a defnyddio hysbysiadau i'r wasg a sianeli cyfathrebu mewnol ac allanol eraill i hybu'n Cynllun a chynyddu ymwybyddiaeth o'i ofynion.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Ionawr 2013
2	Creu Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai (PSI) newydd ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg er mwyn rheoli ei weithrediad yn genedlaethol.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Awst 2013
3	Sicrhau bod cyfeiriad amlwg at y Cynllun Iaith Gymraeg mewn cynlluniau busnes corfforaethol.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Ebrill 2013
4	Sicrhau bod proses yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cyfeirio'n briodol at yr iaith Gymraeg.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Awst 2013
5	Amodau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu hymgorffori yn y contract gyda'r Ganolfan Cydwasanaethau.	Grŵp Caffael	Ionawr 2013
6	Sicrhau bod unrhyw waith sy'n deillio o ofynion neu gynlluniau Llywodraeth Cymru'n cael ei gyflawni'n ddwyieithog yn ôl y galw.	Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Parhaus
7	Creu Rhestr Wirio Polisiâu Newydd yn erbyn y Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer sefydlu polisiâu a chynlluniau newydd a'i dosbarthu i bawb sy'n ymwneud â chynlluniau a pholisiâu newydd.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Ionawr 2013
8	Sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar draws carchardai er mwyn ymdrin â cheisiadau am ddysgu a sgiliau yn y Gymraeg, sianeli teledu ac ati, fel y nodir yn y PSI yn y dyfodol.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Mai 2013
9	Creu rhwydwaith o'r rhai hynny sy'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun yn lleol a sicrhau bod y rhwydwaith ar gael ar draws y Gwasanaeth.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Ionawr 2013
10	Swyddfeydd NOMS yng Nghymru i fonitro gweithrediad y Cynllun mewn carchardai yng Nghymru.	Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Parhaus, gan ddarparu adroddiadau chwarterol ar gynnydd
	<b>Gwasanaethau i'r Cyhoedd</b>		
11	Nodi pwyntiau cyswllt i'r cyhoedd eu defnyddio yn Asiantaeth NOMS er mwyn ennyn dealltwriaeth bellach, hybu gwelliannau a thynnu sylw at unrhyw ddiffygion	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Ionawr 2013 (gyda chyhoeddiad terfynol y

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

	<b>CAM GWEITHREDU</b>	<b>PERCHENNOG CYFRIFOL / CYDLYNYDD</b>	<b>DYDDIAD CYFLAWNI TARGED</b>
	yng ngweithrediad y polisi.		Cynllun)
12	Llunio rhestr o sefydliadau yng Nghymru sy'n ffafrio gohebiaeth yn y Gymraeg a sicrhau bod y rhestr ar gael i'r holl staff.	Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Mawrth 2013
13	Sicrhau bod dogfennau cyfarwyddyd Comisiynydd y Gymraeg ar gael i'r staff ar y fewnwyd, gan gynnwys arweiniad ar ddyfarnu contractau a grantiau, recriwtio a <a href="#">hybu a hwyluso gweithleoedd dwyieithog</a> .	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Ionawr 2013
14	Templedi dwyieithog ar gael i'r holl staff eu defnyddio.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Awst 2013
<b>Gwasanaethau i Droseddwyr</b>			
15	Cyfieithu gwybodaeth gynefino leol i'r Gymraeg mewn carchardai yng Nghymru ac yn ôl yr angen mewn carchardai yn Lloegr.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Mai 2013, ac yn barhaus
16	Cynnwys cyfle yn y broses gynefino i nodi'r Gymraeg fel dewis iaith a sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei chofnodi a'i defnyddio'n briodol.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau / Grŵp Diogelwch, Hawliau a Chyfrifoldebau Troseddwyr	Mawrth 2013
17	Creu taflen Ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ar gyfer Carcharorion, yn cynnwys manylion am yr holl wybodaeth sydd ar gael yn y Gymraeg, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer galwadau ffôn, llythyrau, ymweliadau, dysgu a sgiliau a gweithgareddau. Dylai hon dynnu sylw arbennig at y broses ar gyfer gwneud cais i drosglwyddo i garchar arall hefyd.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau / Grŵp Diogelwch, Hawliau a Chyfrifoldebau Troseddwyr	Awst 2013
18	Sicrhau bod carcharorion a staff yn ymwybodol o'r dewis i gael gwasanaethau dysgu a sgiliau yn y Gymraeg.	Grŵp Cyflogaeth a Sgiliau	Mawrth 2013
19	Sicrhau bod gan garchardai yng Nghymru DVDs, deunydd darllen a rhaglenni teledu Cymraeg a chaniatáu i garcharorion wneud cais am DVDs a deunydd darllen yn Gymraeg a darparu lle bo'n briodol, fel gyda ieithoedd eraill.	Grŵp Diogelwch, Hawliau a Chyfrifoldebau Troseddwyr	Awst 2013
20	Sicrhau fan lleiaf bod teletestun ar gael ym mhob carchar, fel bod carcharorion sy'n siarad Cymraeg sydd â theledu yn eu celloedd yn gallu cael is-deitlau, fel dewis arall yn lle sianeli Cymraeg.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Awst 2013
<b>Contractau, Partneriaethau a Grantiau a allai ddarparu gwasanaethau i bobl</b>			

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

	<b>CAM GWEITHREDU</b>	<b>PERCHENNOG CYFRIFOL / CYDLYNYDD</b>	<b>DYDDIAD CYFLAWNI TARGED</b>
	<b>o Gymru</b>		
21	Newid y rheolau caffael presennol i gynnwys: amodau yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg, ac mewn ceisiadau am gontractau / cyllid (gan gynnwys contractau carchardai preifat), yr angen i nodi sut y maent yn bwriadu darparu gwasanaethau yn y Gymraeg.	Grŵp Caffael a Charchardai Preifat	Mai 2013
22	Monitro cydymffuriad contractau a phartneriaethau â'r Cynllun Iaith Gymraeg a chyflwyno adroddiad o bryd i'w gilydd.	Grŵp Caffael	Parhaus, darparu adroddiadau chwarterol ar gynnydd
	<b>Gwasanaethau Cyfieithu</b>		
23	Cyhoeddi canllawiau i'r Gwasanaeth ar ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu (i'w caffael yn ganolog).	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Mawrth 2013
24	Gwasanaethau cyfieithu i'w monitro ar sail ansawdd a safonau cytunedig ac adborth i'w roi i'r cyfieithwyr.	Grŵp Caffael	Parhaus, darparu adroddiadau chwarterol ar gynnydd
25	Ystyried pob cais i gyfieithu gwybodaeth benodol.	Pawb	Parhaus, yn ôl y galw
	<b>Recriwtio, Staffio a Hyfforddi Staff</b>		
26	Newid y broses ymgeisio fel bo'r angen er mwyn caniatáu i ymgeiswyr ymgeisio am swyddi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn Gymraeg, a chynnal y cyfweiliad yn Gymraeg.	Adnoddau Dynol / Cymru	Awst 2013
27	Newid y drefn recriwtio er mwyn sicrhau bod pob hysbyseb a deunydd yn ddwyieithog (ar gyfer swyddi yng Nghymru) a bod hysbysebion yn nodi a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.	Adnoddau Dynol / Cymru	Awst 2013
28	Asesu'r angen am staff Cymraeg a recriwtio / hyfforddi lle bo angen.	Cymru	Asesu erbyn Awst 2013. Y sgiliau angenrheidiol gan yr holl staff erbyn Ionawr 2014
29	Ymgorffori ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith Gymraeg yn agwedd Cydraddoldebau'r broses o helpu staff i gynefino.	Grŵp Diogelwch, Hawliau a Chyfrifoldebau Troseddwyr	Awst 2013
	<b>Technoleg Gwybodaeth</b>		
30	Hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn Technoleg Gwybodaeth gan sicrhau bod yr egwyddor o gydraddoldeb yn cael ei pharchu.	Technoleg Gwybodaeth	Parhaus ond i gael sylw cychwynnol yn y

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

	<b>CAM GWEITHREDU</b>	<b>PERCHENNOG CYFRIFOL / CYDLYNYDD</b>	<b>DYDDIAD CYFLAWNI TARGED</b>
			PSI (Awst 2013)
31	Asesu gofynion ieithyddol Technoleg Gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl yng Nghymru, a sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'r Dechnoleg Gwybodaeth sydd ar gael.	Technoleg Gwybodaeth	Asesiad wedi'i wneud Hydref 2013, gwella ymwybyddiaeth - parhaus
32	Diweddarau tudalennau ar y we er mwyn eu gwneud yn ddwyieithog pan fo'r tudalennau'n cael eu hadnewyddu, a sicrhau bod unrhyw gyhoeddiadau newydd yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg yr un pryd.	Grŵp Cydraddoldebau / Tîm Gwefan Gwasanaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder	Parhaus
33	Ymchwilio er mwyn darganfod sut i roi rhagor o gefnogaeth i ymarferwyr OASys yng Nghymru.	Grŵp gwasanaethau Adsefydlu	Trafodaeth gychwynnol Medi 2012
34	Cydweithio ag Ymddiriedolaethau Prawf i asesu cyfyngiadau ieithyddol OASys a phenderfynu a ellir gwella mynediad cyfrwng Cymraeg a sut.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Trafodaeth gychwynnol gydag ymarferwyr Prawf Medi 2012 i benderfynu'r ffordd ymlaen.
<b>Cwynion</b>			
35	Sefydlu pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau a chwynion yn ymwneud â mynediad at yr iaith Gymraeg (yn dilyn y drefn gwyno arferol) a sicrhau bod sylw'n cael ei roi i'r manylion cyswllt hyn yn y Cynllun ac yn y PSI.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Tachwedd 2012 (gyda chyhoeddiad terfynol y cynllun) a Mai 2013 (gyda chyhoeddiad y PSI)
<b>Monitro</b>			
36	Monitro gweithrediad y Cynllun.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Parhaus, gan ddarparu diweddariadau chwarterol ar gynnydd
37	Monitro ymwybyddiaeth o'r cynllun gyda staff.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Awst 2013
38	Ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys yr iaith Gymraeg yn y broses o fonitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau / Grŵp Perfformiad a	Mawrth 2013 (trafodaeth gychwynnol rhwng y Grŵp

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

	<b>CAM GWEITHREDU</b>	<b>PERCHENNOG CYFRIFOL / CYDLYNYDD</b>	<b>DYDDIAD CYFLAWNI TARGED</b>
		Dadansoddi	Merched a Chydraddoldebau a'r Grŵp Perfformiad a Dadansoddi)
39	Cyhoeddi perfformiad yn erbyn y Cynllun Iaith Gymraeg yn Adroddiad Blynyddol Asiantaeth NOMS.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Mawrth 2013
40	Ymgorffori perfformiad o ran yr iaith Gymraeg yn Fframwaith Rheoli Perfformiad Asiantaeth NOMS, gan sicrhau bod perfformiad yn cael ei ddadansoddi fesul adran.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Tachwedd 2013
41	Cyhoeddi adroddiad monitro blynyddol a'i anfon at Gomisiynydd y Gymraeg.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Tachwedd 2013
<b>Adolygu</b>			
42	Diweddarau'r cynllun yn nhrydedd flwyddyn ei weithrediad.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Tachwedd 2015 (cyhoeddi)
43	Paratoi adroddiad arfarnu'r Cynllun ar ôl iddo gael ei weithredu am dair blynedd ac anfon yr adroddiad at Gomisiynydd y Gymraeg.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Tachwedd 2015
<b>Swyddfeydd NOMS yng Nghymru, gan gynnwys y Ganolfan Cydwasanaethau a Charchardai yng Nghymru</b>			
44	<i>Monitro ein perfformiad wrth ddarparu gwasanaethau o safon uchel yn y Gymraeg drwy adolygu effeithiolrwydd y gwasanaeth Cymraeg yn rheolaidd a gosod targedau ar gyfer gwelliannau.</i>	Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Parhaus, darparu adroddiadau chwarterol ar gynnydd
45	Sicrhau bod pob arwydd yn swyddfeydd NOMS yng Nghymru, mewn carchardai yng Nghymru ac yn y Ganolfan Cydwasanaethau yn ddwyieithog a bod y ddwy iaith yr un mor amlwg.	Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Mawrth 2013
46	Cynnwys sgiliau Cymraeg mewn strategaethau sgiliau busnes er mwyn rhoi sylw i'r anghenion busnes ar gyfer hyfforddiant Cymraeg, ar y cyd â cheisiadau staff.	Adnoddau Dynol	Awst 2013
47	Blaenoriaethu anghenion hyfforddiant iaith i fodloni gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg	Adnoddau Dynol	Mawrth 2013
48	Sicrhau bod pob aelod o'r staff yng Nghymru sy'n ateb galwadau gan y cyhoedd yn cael hyfforddiant Cymraeg.	Adnoddau Dynol / Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Tachwedd 2013 (pob aelod o staff wedi'i hyfforddi)
49	Asesu lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd ar sail y meini prawf a nodwyd yn y Cynllun hwn.	Adnoddau Dynol / Cymru	Mai 2013

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

	<b>CAM GWEITHREDU</b>	<b>PERCHENNOG CYFRIFOL / CYDLYNYDD</b>	<b>DYDDIAD CYFLAWNI TARGED</b>
50	Asesu hyfedredd y staff presennol yn yr iaith Gymraeg. Monitro gallu'r staff i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob carchar yn lleol	Adnoddau Dynol / Cymru	Awst 2013
51	Sefydlu Hyrwyddwyr y Gymraeg mewn swyddfeydd NOMS yng Nghymru, yn y Ganolfan Cydwasanaethau ac mewn carchardai yng Nghymru er mwyn hyrwyddo'r cynllun.	Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Mawrth 2013
52	Nodi anghenion hyfforddiant Cymraeg ym mhob cyfnod cynefino ar gyfer yr holl staff sydd wedi'u lleoli mewn swyddfeydd NOMS yng Nghymru, mewn carchardai yng Nghymru ac, lle bo'r angen, yn Lloegr.	Adnoddau Dynol / Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Parhaus, arweiniad yn ei le ar gyfer gwneud hyn gyda chyhoeddiad y PSI (Mai 2013)
53	Datblygu'r iaith Gymraeg yn cael ei gynllunio i fod yn rhan o Adolygiadau o Berfformiad a Datblygiad Staff	Adnoddau Dynol / Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Awst 2013
54	Hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i'w ddarparu i'r holl staff yng Nghymru.	Adnoddau Dynol / Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Tachwedd 2013
55	Sicrhau bod staff mewn derbynfeydd yn swyddfeydd NOMS yng Nghymru yn ymwybodol o'r angen i roi cyfarchiad dwyieithog i'n hymwelwyr.	Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Mawrth 2013
56	Sicrhau bod y staff i gyd yn defnyddio cyfarchiad ffôn dwyieithog. Darparu taflen o gyfarchion Cymraeg i'r holl staff ar ôl cwblhau hyfforddiant Cymraeg.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Mawrth 2013
57	Llunio rhestr o staff â sgiliau Cymraeg yn yr Uned Fusnes a nodi pwyntiau cyswllt ar gyfer ymholiadau Cymraeg.	Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Mawrth 2013
58	Defnyddio hunaniaeth ddwyieithog ar bob gohebiaeth, dogfen a chyhoeddiad sy'n deillio o swyddfeydd NOMS yng Nghymru a charchardai yng Nghymru.	Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Ionawr 2013
59	Templedi dwyieithog sy'n berthnasol i Gymru yn unig, ar gael i'r holl staff eu defnyddio.	Swyddfeydd NOMS yng Nghymru	Ionawr 2013
60	Deunydd cyhoeddusrwydd, gan gynnwys deunydd arddangosfeydd sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru, i'w dosbarthu yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Swyddfeydd NOMS yng Nghymru / Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Parhaus, yn ôl yr angen
61	Monitro deunydd cyhoeddusrwydd er mwyn sicrhau cysondeb yn ansawdd y	Grŵp Merched a	Tachwedd 2013



CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

	<b>CAM GWEITHREDU</b>	<b>PERCHENNOG CYFRIFOL / CYDLYNYDD</b>	<b>DYDDIAD CYFLAWNI TARGED</b>
	Gymraeg a'r Saesneg.	Chydraddoldebau / Uned Iaith Gymraeg / Cyfathrebu	
62	Llunio rhestr o wasanaethau Cymraeg ar gyfer y wasg a'r cyfryngau yng Nghymru a sicrhau bod y rhestr ar gael i'r staff perthnasol.	Cyfathrebu / Cymru	Mawrth 2013
63	Edrych ar opsiynau ar gyfer cynyddu cysylltiadau ar draws gwasanaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yng Nghymru er mwyn darparu gwasanaeth Cymraeg cydgysylltiedig yng Nghymru. Gallai hyn gynnwys darparu cyngor a chefnogaeth i garchardai yn Lloegr.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Mai 2013
64	Cytuno ar y ffordd orau i fodloni anghenion carcharorion sy'n siarad Cymraeg sydd mewn carchar yn Lloegr, gan gynnwys darpariaeth ddigonol ar gyfer carchardai i ferched, a chynnwys yr wybodaeth hon yn y Cynllun terfynol.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau	Awst 2013
65	Penderfynu, gyda GLITEM, ar y ffordd orau i ymdrin â materion yn ymwneud â rhannu gwybodaeth am ddewisiadau troseddwr o ran yr iaith Gymraeg.	Grŵp Merched a Chydraddoldebau / GLITEM	Ebrill 2013

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

**ATODIAD B**

**Dogfennau Polisi Perthnasol**

**PSI 49/2011 – Gwasanaethau Cyfathrebu â Charcharorion**

Para	Testun
1.2	Caiff carcharorion ysgrifennu at, a derbyn llythyrau gan, unrhyw unigolyn neu sefydliad, yn amodol ar ba mor dderbyniol yw'r cynnwys ac ar y cyfyngiadau a ddisgrifir ymhellach yn y PSI hwn. Mae cyfyngiadau'n angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd, atal troseddu a sicrhau diogelwch y carchar. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu o reidwydd y bydd carcharor, os yw'n gohebu ag unigolyn neu sefydliad, yn derbyn ymweliad gan yr unigolyn hwnnw neu gynrychiolydd o'r sefydliad hwnnw.
1.3	Caiff carcharorion ysgrifennu llythyrau yn eu dewis iaith, ond mae'n bosibl y bydd rhywfaint o oedi â llythyrau nad ydynt wedi eu hysgrifennu yn Saesneg sydd i fod i gael eu darllen fel mater o drefn tra bo cyfieithiad yn cael ei baratoi.
<b>5 (Atodiad B)</b>	Rhaid i alwadau ffôn gan garcharorion Categori A risg uchel ac eithriadol gael eu gwneud yn Saesneg. Os nad yw'r galwr neu'r sawl sy'n derbyn yr alwad yn siarad neu'n deall Saesneg, gellir defnyddio iaith arall, yn ôl disgrisiwn lleol, ar yr amod bod rhywun ar gael i gyfieithu'r alwad. Os nad yw hyn yn bosibl, gellir recordio galwad gan garcharor risg uchel ond rhaid i'r alwad gael ei chyfieithu cyn pen 48 awr. Rhaid i bob galwad sy'n cael ei gwneud gan y carcharorion hyn gydymffurfio â'r gweithdrefnau sy'n cael eu nodi yn y Fframwaith Diogelwch Cenedlaethol.

**PSI 16/2011 – Darparu Ymweliadau a Gwasanaethau i Ymwelwyr.**

Para	Testun
<b>6.5</b>	Fel arfer, caiff carcharorion siarad yn eu dewis iaith ar ymweliadau. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gofynnir i garcharor a'i ymwelydd/ymwelwyr siarad yn Saesneg os bernir bod hynny er budd y carchar neu ddiogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd neu atal neu ganfod troseddau. Os yw'r carcharor a/neu'r ymwelydd yn methu â siarad Saesneg, mae'n bosibl y bydd rhywun sy'n deall yr iaith sy'n cael ei defnyddio'n gwrando ar y sgwrs neu y bydd y sgwrs yn cael ei recordio.

**Fframwaith Diogelwch Cenedlaethol – Swyddogaeth 4, Cyfathrebu a Gwyliadwriaeth**

Para	Testun
<b>Agor</b>	Caiff carcharorion ysgrifennu eu llythyrau yn eu dewis iaith, ond

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

<b>Llythyrau</b>	mae'n rhaid trefnu i gael cyfieithu llythyrau nad ydynt wedi eu hysgrifennu yn Saesneg sydd i fod i gael eu darllen.
<b>Gwranddo ar Alwadau carcharorion Categori A</b>	<u>Rhaid</u> i alwadau ffôn gan garcharorion risg uchel neu eithriadol gael eu gwneud yn Saesneg. Os nad yw'r galwr neu'r sawl sy'n derbyn yr alwad yn siarad neu'n deall Saesneg, gellir defnyddio iaith arall yn ôl disgrisiwn lleol os oes rhywun (naill ai aelod o staff sy'n gymwys i gyfieithu neu gyfieithydd awdurdodedig) ar gael i gyfieithu'r alwad. Rhaid gwranddo ar alwadau ffôn gan garcharorion risg eithriadol ar y pryd. Os nad oes cyfieithydd ar gael, rhaid cynnal yr alwad gyfan yn Saesneg neu ni cheir gwneud yr alwad. Fodd bynnag, gyda charcharorion risg uchel, os nad oes cyfieithydd ar gael, gellir recordio'r alwad ond rhaid i'r alwad gael ei chyfieithu cyn pen 48 awr.

**Llawlyfr Diogelu'r Cyhoeddi**

<b>Para</b>	<b>Testun</b>
<b>Pennod 6: Gweithdrefnau Aflonyddu'n Berthnasol – 8.2</b>	Rhaid darllen y weithdrefn a'i hegluro ar lafar i bob carcharor sydd wedi'i adnabod fel unigolyn sy'n destun troseddau aflonyddu, gorchmynion llys neu sefyllfaoedd eraill ac mae'n rhaid iddynt lofnodi 2 ffurflen sy'n nodi eu bod yn destun cyfyngiadau ( <u>gweler Atodiad D</u> ). Os nad Saesneg yw iaith gyntaf y carcharor, rhaid i'r sefydliad drefnu bod cyfieithydd cymeradwy yn ei gyfieithu fel bod y carcharor yn ei ddeall yn iawn.

**PSI 45/2011 – Gwasanaeth Llyfrgell y Carchar**

<b>Para</b>	<b>Testun</b>
<b>5.6</b>	Bydd Rheolwr y Llyfrgell yn darparu deunyddiau ar gyfer carcharorion sydd ag anghenion penodol, er enghraifft lleiafrifoedd ethnig, unigolion sy'n rhannol ddall, unigolion sydd dan anfantais yn addysgol ac unigolion nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf.
<b>Manyleb Llyfrgell y Carchar 2010: Gwasanaeth Tanysgrifo</b>	Bydd gwasanaeth tanysgrifio ar gyfer stoc arbenigol yn cael ei ddarparu ar gyfer grwpiau ethnig yn y carchar nad ydynt yn gynrychioliadol o gymysgedd y boblogaeth yn y gymuned y tu allan. Bydd amrywiaeth o ddeunyddiau ar gael i unigolion nad ydynt yn siarad Saesneg.

**PSI 11/2011 Cymhellion a Breintiau a Enillir**

<b>Para</b>	<b>Testun</b>
<b>3.10</b>	Teledu yn y celloedd Mae carcharorion sydd ar lefel safonol neu uwch yn gymwys i gael teledu

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

	yn eu celloedd, mewn sefydliadau lle mae trydan ar gael yn y celloedd, neu drwy setiau sy'n gweithio oddi ar fatri. Bydd carcharorion yn talu rhent wythnosol am bob set ac mae'n rhaid iddynt lofnodi'r cytundeb setiau teledu mewn celloedd.
<b>2.6.2</b>	Rhaid rhoi gwybod i garcharorion newydd am y cynllun [Cymhellion a Breintiau a Enillir lleol], a rhaid darparu ar gyfer unigolion sy'n cael trafferth darllen neu ddeall Saesneg. Rhaid cyfleu gwybodaeth fanwl am y cynllun i garcharorion yn ystod y cyfnod cynefino, a dylai staff fod yn barod i gynnig cyngor arno ar unrhyw adeg. Mae darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ieithoedd a fformatau, e.e. print bras, yn arfer dda.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

**ATODIAD C**

**Lleoliad Troseddwy Medi 2010: Troseddwy o Gymru**

Mae'r tablau isod yn dangos lleoliad troseddwy sy'n dod o Gymru'n wreiddiol yn ôl y carchar y lleolwyd hwy ynddo ym mis Medi 2010 (rhanbarth NOMS). Dangosir y data ar gyfer pob rhanbarth fel canran a thalgrynwyd y cyfanswm ar gyfer pob ardal heddlu i'r deg agosaf. Mae (\*) yn dynodi achosion o lai na 10 troseddwr yn y rhanbarth.

**a) Troseddwy gwrywaidd o Gymru sy'n treulio dedfryd yn y carchar**

Mae'r cyfrannau uchaf o droseddwy gwrywaidd o Gymru sydd yn y ddalfa yn Lloegr wedi'u lleoli yn y canlynol:

- Carchar Altcourse – 25%<sup>1</sup>
- Carchar Channings Wood – 5%<sup>2</sup>
- Sefydliad Troseddwy Ifanc Stoke Heath – 5%

Ardal	Rhanbarth NOMS Presennol	%		
Cymru	Dwyrain Canolbarth Lloegr	3		
	Dwyrain Lloegr	1		
	Llundain	0		
	Gogledd	1		
	Ddwyrain Lloegr			
	Gogledd Orllewin Lloegr	17		
	De Ddwyrain Lloegr	3		
	De Orllewin Lloegr	11		
	Cymru	57		
	Gorllewin Canolbarth Lloegr	7		
	Swydd Efrog a Humber	2		
	<b>Cyfanswm y troseddwy o Gymru</b>		<b>4,300</b>	

Ardal Heddlu	Rhanbarth NOMS Presennol	%	
Dyfed-Powys	Dwyrain Canolbarth Lloegr	*	
	Dwyrain Lloegr	*	
	Llundain	*	
	Gogledd	*	
	Ddwyrain Lloegr		
	Gogledd Orllewin Lloegr	8	
	De Ddwyrain Lloegr	7	
	De Orllewin Lloegr	9	
	Cymru	58	
	Gorllewin Canolbarth Lloegr	10	
Swydd Efrog a Humber	*		
<b>Cyfanswm y troseddwy o Ddyfed-Powys</b>		<b>180</b>	
Gwent	Dwyrain Canolbarth Lloegr	2	
	Dwyrain Lloegr	*	
	Llundain	*	

<sup>1</sup> Mae dros 90% o'r troseddwy sydd yng Ngharchar Altcourse o Ogledd Cymru'n wreiddiol.

<sup>2</sup> Mae'r mwyafrif o'r troseddwy sydd yng Ngharchar Channings Wood o Dde Cymru'n wreiddiol.

Disgwylir mai dim ond cyfran fach fydd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

	Gogledd Ddwyrain Lloegr Gogledd Orllewin Lloegr De Ddwyrain Lloegr De Orllewin Lloegr Cymru Gorllewin Canolbarth Lloegr Swydd Efrog a Humber	*  *  4  13  68  7  3	
<b>Cyfanswm y troseddwy'r o Went 500</b>			<b>500</b>
<b>Gogledd Cymru</b>	Dwyrain Canolbarth Lloegr  Dwyrain Lloegr Llundain Gogledd Ddwyrain Lloegr Gogledd Orllewin Lloegr De Ddwyrain Lloegr De Orllewin Lloegr Cymru Gorllewin Canolbarth Lloegr Swydd Efrog a Humber	2  1 * *  79  1  * *  11  3	
<b>Cyfanswm y troseddwy'r o Ogledd Cymru</b>			<b>830</b>
<b>De Cymru</b>	Dwyrain Canolbarth Lloegr  Dwyrain Lloegr Llundain Gogledd Ddwyrain Lloegr Gogledd Orllewin Lloegr De Ddwyrain Lloegr	3  1 *  1  2  3	

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

	De Orllewin Lloegr	14	
	Cymru	71	
	Gorllewin Canolbarth Lloegr	5	
	Swydd Efrog a Humber	1	
<b>Cyfanswm y troseddwy'r o Dde Cymru</b>			<b>2,800</b>

**b) Troseddwy'r benywaidd o Gymru sy'n treulio dedfryd o garchar**

Mae'r gyfran uchaf o droseddwy'r benywaidd o Gymru sydd yn y ddalfa yn Lloegr wedi'u lleoli yn y canlynol:

- Carchar Eastwood Park – 38%
- Carchar Drake Hall – 13%
- Carchar Styal – 11%

Ardal Heddlu	Rhanbarth NOMS Presennol	%
<b>Dyfed-Powys</b>	Dwyrain Canolbarth Lloegr	*
	Dwyrain Lloegr	*
	Llundain	*
	De Ddwyrain Lloegr	*
	De Orllewin Lloegr	*
	Gorllewin Canolbarth Lloegr	*
	<b>Cyfanswm</b>	<b>20</b>
	<b>Gwent</b>	Dwyrain Canolbarth Lloegr
Llundain		*
De Ddwyrain Lloegr		*
De Orllewin Lloegr		*
Gorllewin Canolbarth Lloegr		*
<b>Cyfanswm Gwent</b>		<b>20</b>

Ardal	Rhanbarth NOMS Presennol	%
<b>Cymru</b>	Dwyrain Canolbarth Lloegr	8
	Dwyrain Lloegr	*
	Llundain	*
	Gogledd Ddwyrain Lloegr	*
	Gogledd Orllewin Lloegr	11
	De Ddwyrain Lloegr	23
	De Orllewin Lloegr	38
	Gorllewin Canolbarth Lloegr	13
	Swydd Efrog a Humber	*
	<b>Cyfanswm</b>	<b>230</b>

<sup>3</sup> Mae'r mwyafrif o'r merched sydd yng Ngharchar Styal o Ogledd Cymru yn wreiddiol.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

<b>Gogledd Cymru</b>	Dwyrain	*
	Canolbarth Lloegr	
	Dwyrain Lloegr	*
	Gogledd Orllewin	63
	Lloegr	
	De Ddwyrain	*
	Lloegr	
	Gorllewin	*
	Canolbarth Lloegr	
	Swydd Efrog a Humber	*
Cyfanswm Gogledd Cymru	40	
<b>De Cymru</b>	Dwyrain	8
	Canolbarth Lloegr	
	Dwyrain Lloegr	*
	Llundain	*
	Gogledd Ddwyrain	*
	Lloegr	
	Gogledd Orllewin	*
	Lloegr	
	De Ddwyrain	28
	Lloegr	
	De Orllewin Lloegr	49
	Gorllewin	10
	Canolbarth Lloegr	
Cyfanswm De Cymru	150	



## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

### Cam 1 – sgrinio cychwynnol

Y cam cyntaf wrth gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yw sgrinio'r polisi er mwyn penderfynu pa mor berthnasol ydyw i'r materion cydraddoldeb amrywiol. Bydd hyn yn dangos a oes angen asesiad llawn ai peidio a pha faterion ddylai gael eu hystyried ynddo. Y materion cydraddoldeb y dylech eu hystyried wrth gwblhau'r sgriniad hwn yw:

- Hil
- Rhyw
- Hunaniaeth o ran rhywedd
- Anabledd
- Crefydd neu gred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Oedran (gan gynnwys troseddwy'r ifanc a throseddwy'r hŷn).

### Nodau

#### Beth yw nodau'r polisi?

Nod y Cynllun Iaith Gymraeg hwn yw sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a darparu gwasanaethau.

Wrth wneud hyn bydd NOMS yn cyflawni gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac yn sicrhau ei fod yn barod ar gyfer Mesur y Gymraeg a fydd yn cynyddu'r hyn a ddisgwylir gan Asiantaeth NOMS yn y dyfodol.

### Effeithiau

#### Pa effeithiau fydd y polisi'n eu cael ar staff, troseddwy'r neu randdeiliaid eraill?

Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae staff yn gweithio ac ar eu hymwybyddiaeth o'r anawsterau y gallai pobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf eu hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau yn Saesneg. Bydd yn rhoi cyfle i staff mewn lleoliadau penodol feithrin neu wella eu sgiliau Cymraeg.

Bydd troseddwy'r yn cael mynediad safonol at wasanaethau Cymraeg ym mhob carchar a byddant yn cael cyfle i ddefnyddio mwy o wasanaethau yn Gymraeg os ydynt yn gofyn am hynny, felly mae'r effaith ar droseddwy'r, yn enwedig y rhai hynny o Gymru neu'r rhai hynny sy'n cael eu symud i Gymru yn un gadarnhaol iawn.

Ni fydd y cynllun yn cael llawer o effaith ar randdeiliaid o ran y camau y bydd yn ofynnol iddynt eu cwblhau. Wrth weithio gyda'n gilydd byddant yn cael eu

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS PAPUR YMGYNGHORI

hannog i weithredu ein Cynllun iaith Gymraeg ni os nad oes ganddynt un eu hunain. Ar wahân i hyn, bydd yr unig effaith arnynt hwy'n effaith gadarnhaol, sef rhannu dealltwriaeth o'r angen am wasanaethau Cymraeg.

### Tystiolaeth

**A oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd fod y maes polisi hwn yn berthnasol i unrhyw fater cydraddoldeb?**

*Nodwch y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am weithrediad a chanlyniadau'r polisi, megis adborth gweithredol (gan gynnwys monitro lleol ac asesiadau o'r effaith)/adroddiadau'r Arolygiaeth ac adroddiadau/cwynion perthnasol eraill ac ymglyfreitha/cyhoeddiadau ymchwil perthnasol ac ati. A oes unrhyw dystiolaeth yn awgrymu bod unrhyw rai o'r materion cydraddoldeb yn berthnasol?*

Pwrpas y Cynllun yw sicrhau cydraddoldeb wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Nid oes dystiolaeth i awgrymu y bydd unrhyw rai o'r materion cydraddoldeb yn berthnasol wrth weithredu'r Cynllun hwn.

### Rhanddeiliaid ac adborth

**Disgrifiwch y grŵp targed ar gyfer y polisi a rhestrwch unrhyw bartion eraill sydd â diddordeb. Pa gysylltiad ydych chi wedi'i gael gyda'r grwpiau hyn?**

Y grŵp targed yw'r cyhoedd yng Nghymru, pobl sy'n siarad Cymraeg sy'n cael gwasanaethau troseddwy NOMS, e.e. carcharorion sy'n siarad Cymraeg sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yng Nghymru neu yn Lloegr. Y bartion eraill sydd â diddordeb yw staff, rhanddeiliaid a gwasanaethau dan gontract.

Mae staff a rhanddeiliaid perthnasol yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi cael cyfle i ymateb i ymgynghoriad mewnol. Bydd sefydliadau allanol eraill a'r cyhoedd yn cael cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad allanol ar y Cynllun hwn a bydd eu hadborth yn cael ei ystyried.

**Oes gennych chi adborth gan rhanddeiliaid, yn enwedig grwpiau sy'n cynrychioli'r materion amrywiol, bod y polisi hwn yn berthnasol iddynt hwy?**

Roedd yr adborth ar yr ymgynghoriad mewnol gan rhanddeiliaid a grwpiau yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ddefnyddiol iawn a gwnaethpwyd newidiadau i'r Cynllun yn dilyn yr adborth. Mae Rhwydwaith Cyfiawnder Cymru'n darparu cysylltiadau rhwng y sefydliadau Cyfiawnder sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac yn galluogi'r sefydliadau hyn i gydgyssylltu polisi ar bethau sy'n benodol i Gymru, fel yr Iaith Gymraeg. O ganlyniad, mae'r Cynllun hwn yn berthnasol iddynt hwy, ac mae cysylltiad rheolaidd â'r Rhwydwaith wrth ddatblygu'r Cynllun hwn wedi sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn parhau.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

## Effaith

**A allai'r polisi gael effaith wahaniaethol ar staff, carcharorion, ymwelwyr neu randdeiliaid eraill ar sail unrhyw rai o'r materion cydraddoldeb?**

Na. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg ynddo'i hun yn rhoi sylw i faterion sydd â'r potensial i arwain at anghydraddoldeb mewn gwasanaethau. Bydd yn hybu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ac yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael gwasanaethau yn y Gymraeg os ydynt yn dymuno, beth bynnag eu hil, rhyw, anabledd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu oedran.

## Disgresiwn lleol

**A yw'r polisi'n caniatáu disgresiwn lleol yn y ffordd y mae'n cael ei weithredu? Os ydyw, pa fesurau diogelu sydd gennych er mwyn atal canlyniadau anghyson a/neu driniaeth wahaniaethol i grwpiau gwahanol o bobl?**

Mae angen rhywfaint o ddisgresiwn lleol, ond mae systemau monitro wedi'u hymgorffori yn y Cynllun er mwyn sicrhau bod pob rhan o Asiantaeth NOMS yn bodloni disgwyliadau'r Cynllun. Mae'r Cynlluniau Gweithredu eu hunain yn nodi beth sy'n ofynnol a phryd, a byddant yn cael eu monitro gan y Grŵp Merched a Chydraddoldebau.

## Crynodeb – A yw'r cynllun yn berthnasol i faterion cydraddoldeb

	Maes	Ydyw/ Nac ydyw	Sail Resymegol
	Hil	Nac ydyw	Y bwriad yw sicrhau canlyniadau teg i'r rhai hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
	Rhyw (gan gynnwys hunaniaeth o ran rhywedd)	Nac ydyw	Y bwriad yw sicrhau canlyniadau teg i'r rhai hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
	Anabledd	Nac ydyw	Y bwriad yw sicrhau canlyniadau teg i'r rhai hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
	Crefydd neu gred	Nac ydyw	Y bwriad yw sicrhau canlyniadau teg i'r rhai hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
	Cyfeiriadedd rhywiol	Nac ydyw	Y bwriad yw sicrhau canlyniadau teg i'r rhai hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
	Oed (troseddwyd iau)	Nac ydyw	Y bwriad yw sicrhau canlyniadau teg i'r rhai hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
	Oed (troseddwyd)	Nac	Y bwriad yw sicrhau canlyniadau teg i'r rhai

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

Maes	Ydyw/ Nac ydyw	Sail Resymegol
	hŷn)	ydyw hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.

Os ydych wedi ateb 'Ydyw' ar gyfer unrhyw un o'r materion cydraddoldeb, rhaid cwblhau asesiad llawn o'r effaith. Ewch ymlaen i GAM 2 y ddogfen.

Os ydych wedi ateb 'Nac ydyw' ar gyfer pob un o'r materion cydraddoldeb, ni fydd angen asesiad llawn o'r effaith, a gallwch lofnodi'r asesiad hwn nawr. Er hyn, bydd angen i chi sefydlu trefniadau monitro er mwyn sicrhau bod unrhyw effaith yn y dyfodol ar unrhyw un o'r materion cydraddoldeb yn cael ei nodi.

### Trefniadau monitro ac adolygu

Disgrifiwch y systemau rydych yn eu cyflwyno er mwyn rheoli'r polisi a monitro ei weithrediad a'i ganlyniadau o ran y materion cydraddoldeb amrywiol.

Ceir gwybodaeth am y trefniadau monitro yn y Cynllun. Bydd Adroddiad Monitro Blynyddol yn cael ei gwblhau er mwyn sicrhau bod pob rhan o Asiantaeth NOMS yn cydymffurfio â'r Cynllun ac yn gweithredu'r cynlluniau gweithredu. Bydd contractau gyda sefydliadau allanol yn cael eu monitro drwy'r weithdrefn gontractau safonol.

**Nodwch pa bryd y cynhelir adolygiad a sut y bydd yn cael ei gynnal.**

Byddwn yn adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ym mis Hydref 2011.

Enw a llofnod	Dyddiad
Arweinydd polisi Rob Heaton-Jones	23 Chwefror 2011
Pennaeth grŵp Ian Mulholland	

**Holiadur**  
**Cynllun Iaith Gymraeg NOMS**  
**Templed Ymateb i Ymgynghoriad**

Ar ôl llenwi eich ffurflen ymateb anfonwch hi i:  
**E-bost: [welshlanguage@noms.gsi.gov.uk](mailto:welshlanguage@noms.gsi.gov.uk)**

Cyfeiriad: **Women & Equalities Group**  
**3.16 Clive House**  
**70 Petty France**  
**Llundain**  
**SW1H 9HD**

<b>Enw:</b> <b>Swydd:</b> <b>Sefydliad:</b>
---

<b>Cyfeiriad:</b>  <b>Ffôn:</b> <b>E-bost:</b>
---

*Bwriedir i bob ymateb a gawn fod ar gael i'r cyhoedd os gwneir cais. Mae'n bosibl hefyd y cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion gan ddangos enw'r sefydliad sy'n ymateb.*

Nodwch os gwelwch yn dda i ba lefel o'r Cynllun Iaith Gymraeg rydych yn ymateb. Mae croeso i chi ymateb i fwy nag un lefel, ond gofynnwn i chi nodi hynny'n glir er mwyn i ni ddeall eich ymateb.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

**Cwestiwn 1:** Sut ydych chi'n meddwl y dylai'r gwasanaeth Cymraeg weithredu y tu allan i Gymru? A ddylai bod grŵp o garchardai lle cedwir y nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaeth lefel uwch?

**Ymateb:** *(gan gynnwys y lefel yr anelwyd yr ymateb ati)*

**Cwestiwn 2:** Fel y disgrifir ar dudalen 17 y Cynllun, nid oes cyfleuster carcharu i ferched yng Nghymru. O ystyried hyn, a oes gennych farn benodol ynglŷn â beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion merched sy'n siarad Cymraeg sydd yn y carchar?

**Ymateb:** *(gan gynnwys y lefel yr anelwyd yr ymateb ati)*

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

**Cwestiwn 3:** A ydych yn cytuno â'r Cyflwyniad a'r disgrifiadau lefel uchel o'r rhan y bydd pob adran yn ei chwarae wrth weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg? A yw'r disgrifiadau'n glir?

**Ymateb:** *(gan gynnwys y lefel yr anelwyd yr ymateb ati)*

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno ag Egwyddorion Cyffredinol y Cynllun?

**Ymateb:** *(gan gynnwys y lefel yr anelwyd yr ymateb ati)*

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

**Cwestiwn 5:** A ydych yn cytuno â'r manylion yn Adran 4 Gwasanaeth Cymraeg Asiantaeth NOMS? A oes gennych gwestiynau penodol?

**Ymateb:** *(gan gynnwys y lefel yr anelwyd yr ymateb ati)*

**Cwestiwn 6:** A ydych yn cytuno â'r manylion yn Adran 5 Gweithredu'r Cynllun? A oes gennych gwestiynau penodol?

**Ymateb:** *(gan gynnwys y lefel yr anelwyd yr ymateb ati)*



CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

**Cwestiwn 7:** A yw Adran 7 – ‘Y Gwasanaeth Cymraeg mewn Carchardai’ yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan y gwasanaeth carchardai wrth ddarparu gwasanaethau i droseddwyr sy’n siarad Cymraeg? A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol am yr adran hon?

**Ymateb:** *(gan gynnwys y lefel yr anelwyd yr ymateb ati)*

**Cwestiwn 8:** A ydych yn cytuno ag Adran 9 – ‘Monitro’r Cynllun a Chyhoeddi Gwybodaeth’?

**Ymateb:** *(gan gynnwys y lefel yr anelwyd yr ymateb ati)*

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

**Cwestiwn 9:** A ydych yn cytuno â'n dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun, gan gynnwys ein trefn gwyno?

**Ymateb:** *(gan gynnwys y lefel yr anelwyd yr ymateb ati)*

**Cwestiwn 10:** A ydych yn cytuno â'r amserlenni a'r cyfrifoldebau fel y maent wedi'u nodi yn yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg NOMS – Atodiad A?

**Ymateb:** *(gan gynnwys y lefel yr anelwyd yr ymateb ati)*

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

**Cwestiwn 11:** A ydych yn gwybod am unrhyw ddogfennau polisi eraill y dylid cyfeirio atynt yn Atodiad B ac ym mhrif destun y Cynllun hwn?

**Ymateb:** *(gan gynnwys y lefel yr anelwyd yr ymateb ati)*

**12. Unrhyw Sylwadau Eraill:**

**Ymateb:** *(gan gynnwys y lefel yr anelwyd yr ymateb ati)*

**Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.**

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

## Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud rhywfaint amdanoch eich hun wrthym

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl eich swydd</b> neu ym mha swyddogaeth yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb.)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw'r cwmni/sefydliad</b> (os yw'n berthnasol):	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod post</b>	
Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad lle dylid anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, rhowch enw'r grŵp os gwelwch yn dda a rhowch gynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

---

---

---

---

## Manylion cyswllt / Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 04/12/12 at:

**Suzanne Dean**  
**Women & Equalities Group, NOMS**  
**Ministry of Justice**  
**3.16 Clive House, 70 Petty France**  
**Llundain SW1H 9EX**  
Ffôn: 0300 047 6588

E-bost: [welshlanguage@noms.gsi.gov.uk](mailto:welshlanguage@noms.gsi.gov.uk)

### Copiâu ychwanegol

Mae copiâu eraill o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>. **Gellir gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan Suzanne Dean - Ffôn: 0300 047 6588 / E-bost: [welshlanguage@noms.gsi.gov.uk](mailto:welshlanguage@noms.gsi.gov.uk)**

### Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

### Cyfrinachedd

Efallai y bydd gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf).

Os hoffech i'r wybodaeth a roddir gennych gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod Cod Ymarfer statudol, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â dyletswyddau cyfrinachedd. Yn wyneb hyn byddai'n ddefnyddiol pe baech yn egluro i ni pam yr ydych yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais am ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch eglurhad, ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob achos. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynnddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol gan y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y mwyafrif o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw drydydd parti.

## Y meini prawf ymgynghori

Mae'r saith maen prawf ymgynghori fel a ganlyn:

1. **Pryd i ymgynghori** – Dylid cynnal ymgynghoriadau ffurfiol ar adeg pan mae modd dylanwadu ar ganlyniad y polisi.
2. **Hyd ymarferion ymgynghori** – Dylai ymgynghoriadau bara am o leiaf 12 wythnos fel rheol, gan ystyried amserlenni hwy pan fydd hynny'n ymarferol ac yn ddoeth.
3. **Eglurder ynglŷn â'r cwmpas a'r effaith** - Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynglŷn â'r broses ymgynghori, yr hyn sy'n cael ei gynnig, y gallu i ddylanwadu a chostau a buddiannau disgwylid y cynigion.
4. **Hygyrchedd ymarferion ymgynghori** – Dylid cynllunio ymarferion ymgynghori i fod yn hygyrch i'r bobl hynny y mae'n fwriad i'r ymarfer eu cyrraedd, ac wedi'u targedu'n glir atynt.
5. **Baich ymgynghori** – Mae'n hanfodol sicrhau bod yr ymgynghoriad yn achosi cyn lleied o faich â phosibl er mwyn i ymgynghoriadau fod yn effeithiol, ac er mwyn sicrhau bod ymgynghoreion yn cyfrannu at y broses.
6. **Ymatebolrwydd ymarferion ymgynghori** - Dylid dadansoddi ymatebion i ymgynghoriad yn ofalus gan roi adborth clir i'r rhai sydd wedi cymryd rhan ar ôl yr ymgynghoriad.
7. **Gallu i ymgynghori** - Dylai swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriadau geisio arweiniad ynglŷn â sut i gynnal ymarfer ymgynghori'n effeithiol a rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu o'r profiad.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

**Manylion cyswllt Cydlynnydd yr Ymgynghoriad**

**Rhaid cynnwys y meini prawf hyn ymhob dogfen ymgynghori.  
Mae'n rhaid i'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu hanfon at y person  
cyswllt a enwir dan yr adran Sut i Ymateb.**

Ond, os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y **broses** ymgynghori,  
dylech gysylltu â Sheila Morson ar 020 3334 4498, neu anfon e-bost ati yn  
[consultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:consultation@justice.gsi.gov.uk).

Neu, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad isod :

**Ministry of Justice  
Consultation Co-ordinator  
Better Regulation Unit  
Analytical Services  
7th Floor, 7:02  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ**

CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI



CYNLLUN IAITH GYMRAEG ASIANTAETH NOMS  
PAPUR YMGYNGHORI

© Hawlfraint y Goron 2012  
Cyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu anfonwch e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Os ydym wedi cyfeirio at unrhyw ddeunydd sydd dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd perchennog yr hawlfraint honno.

Gellir cael fersiynau eraill o'r adroddiad hwn drwy wneud cais i Suzanne Dean - Ffôn: 0300 047 6588 / E-bost: [suzanne.dean@noms.gsi.gov.uk](mailto:suzanne.dean@noms.gsi.gov.uk)